

BAGLORIAETH CYMRU CENEDLAETHOL/SYLFAEN

ACHREDWYD GAN
LYWODRAETH CYMRU

I'w addysgu o 2015

MANYLEB

Fersiwn 3 - Tachwedd 2022



CRYNODEB O NEWIDIADAU

Fersiwn	Disgrifiad	Rhif y dudalen
2	Cynnwys diagramau wedi'u diweddarau sy'n dangos y gofynion ar gyfer cyflawni cymwysterau Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen.	3
	Eglurhad ar ddyrannu oriau dysgu dan arweiniad.	8
	Amod i'r Her Dinasyddiaeth Fyd-eang cael ei chwblhau fel unigolyn.	8
	Dileu Partneriaeth Busnes fel opsiwn ar gyfer yr Her Menter a Chyflogadwyedd.	16
	Ychwanegu nifer geiriau mwyaf o 800 gair at y gofynion tystiolaeth ategol ar gyfer y Safbwynt Personol.	21
	Egluro ymhle mae'r Briffiau Her wedi'u Cymeradwyo a thasgau cysylltiedig ar gael i ganolfannau.	28
	Cynnwys cyfeiriad at y tabl Crynodeb o'r Rheolaethau ym Mriff yr Her ac yn y Llawlyfr Cyflwyno.	30
	Egluro ei bod yn bosibl llunio canllawiau cyffredinol ar gyfer ymgeiswyr wrth iddyn nhw gwblhau heriau.	31
	Tynnu cyfeiriadau at gapio graddau ar gyfer ailsefyll.	34
	Egluro'r 'rheol' 80/20 a chynnwys GMU	34
	Egluro trefniadau ailsefyll cydrannau	35
	Diweddariad ar y wybodaeth am gymedroli allanol i adlewyrchu'r trefniant presennol, gan gynnwys e-gyflwyno	36
	Diweddariad ar y wybodaeth am drefniadau ardystio i adlewyrchu'r trefniadau presennol	37
	Tynnu Atodiad A ac ailenwi Atodiad B yn Atodiad A.	40
	Tynnu cyfeiriadau at gymhwyster Bagloriaeth Cymru ôl-16 a Thystysgrifau Her Sgiliau	drwyddi draw
	Tynnu cyfeiriadau at Gyfnod Allweddol 4 / CA4.	drwyddi draw
	Bod yn gyson â'r Cwricwlwm i Gymru drwy ailenwi sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd. Defnyddir sgiliau cyfannol a thrawsgwricwlaidd erbyn hyn.	drwyddi draw

3	Cyflwyno dwy allan o'r tair Her ar gyfer i'w hasesu'n fewnol a'u cymedroli'n allanol	drwyddi draw
	Dileu adran 1.6 ar Gefnogaeth Tiwtorialau a Mentora	6
	Eglurhad pellach ar gwblhau dwy allan o'r tair Her i'w hasesu	8
	Eglurhad ar ddyfarnu graddau'r cydrannau	34
	Eglurhad ar ddyfarnu'r cymhwyster cyffredinol, gan gynnwys dileu'r rheol 80%	35

CYNNWYS

	Tudalen
1. Cyflwyniad a Rhesymeg	
1.1 Teitlau a Chodau'r Cymhwyster	2
1.2 Rhesymeg	2
1.3 Nodau ac Amcanion	3
1.4 Sgiliau cyfannol a thrawsgwricwlaidd	4
1.5 Dilyniant	6
2. Strwythur y Cymhwyster	
2.1 Tystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen CBAC	7
2.2 Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol CBAC	9
2.3 Bagloriaeth Cymru Sylfaen CBAC	9
3. Cydrannau'r Dystysgrif Her Sgiliau	
3.1 Strwythur y cydrannau	10
3.2 Project Unigol	11
3.3 Her Menter a Chyflogadwyedd	16
3.4 Her Dinasyddiaeth Fyd-eang	21
3.5 Her y Gymuned	25
4. Heriau	
4.1 Meithrin Sgiliau	29
4.2 Briffiau'r Heriau	29
4.3 Fformat Briffiau'r Heriau	29
4.4 Dylunio a Chymeradwyo Briffiau'r Heriau	30
4.5 Rheoli'r Heriau gan y Canolfannau	31
5. Asesu	
5.1 Cynllun Asesu	32
5.2 Asesu tystiolaeth	33
5.3 Safoni	33
6. Graddio	
6.1 Dyfarnu graddau ar gyfer cydrannau'r Dystysgrif Her Sgiliau	34
6.2 Dyfarnu graddau ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau	35
7. Dulliau Cofrestru	
7.1 Ymrestru	36
7.2 Cofrestru ar gyfer Cydrannau a Chymwysterau	36
7.3 Ailsefyll cydrannau	36
8. Safoni Allanol	37
9. Dyfarnu ac adrodd yn ôl	38
10. Trefniadau Mynediad	39
11. Gwasanaeth ar ôl y Canlyniadau	40
Atodiadau	
Atodiad A – Rhestr Termiau	41

1 RHAGARWEINIAD

1.1 Teitlau a Chodau'r Cymhwyster

Mae'r fanyleb hon yn ymdrin â'r cymwysterau canlynol:

Lefel 1/2

601/4918/8 Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen CBAC (lefel 1/2)

601/4915/2 Tystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen (lefel 1/2)

1.2 Rhesymeg

Ffocws canolog Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen yw darparu cyfrwng i ddysgwyr atgyfnerthu a meithrin sgiliau cyfannol a thrawsgwricwlaidd. Bydd y cymhwyster yn helpu dysgwyr i baratoi ar gyfer y dyfodol drwy feithrin sgiliau, priodoleddau a mathau o ymddygiad a gaiff eu gwerthfawrogi gan addysgwyr a darpar gyflogwyr. Mae pwyslais Bagloriaeth Cymru ar ddysgu cymhwysol h.y. caffael a defnyddio amrywiaeth o sgiliau trosglwyddadwy. Bydd y dysgwyr yn meithrin sgiliau yng nghyd-destun tasgau pwrpasol a gwybodaeth a dealltwriaeth briodol. Bydd Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen yn annog y dysgwr i werthfawrogi'r broses o feithrin sgiliau fel agwedd allweddol ar addysg a dysgu gydol oes. Mae'n cwmpasu ac yn cydgrynhui dibenion craidd y Cwricwlwm i Gymru, gan gefnogi dysgwyr i ddod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
- gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Mae Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen yn seiliedig ar **Dystysgrif Her Sgiliau** Cenedlaethol/Sylfaen ynghyd â **Cymwysterau Ategol**. Rhaid bodloni gofynion y Dystysgrif Her Sgiliau a'r Cymwysterau Ategol er mwyn cyflawni Bagloriaeth Cymru yn ei chyfanrwydd.

Mae'r **Dystysgrif Her Sgiliau** yn cynnwys pedair cydran:


- Project Unigol
- Her Menter a Chyflogadwyedd
- Her Dinasyddiaeth Fyd-eang
- Her y Gymuned

I ennill y cymhwyster, rhaid i ddysgwyr gwblhau'r Project Unigol a **dwy** o'r cydrannau Her. Bydd canlyniadau cyfunol y **tair** cydran a ddewisir yn penderfynu a yw'r Dystysgrif Her Sgiliau yn cael ei dyfarnu ar lefel Genedlaethol neu Sylfaen.

Mae'r **Cymwysterau Ategol** yn cynnwys dau gymhwyster TGAU gorfodol mewn Saesneg Iaith neu Gymraeg Iaith ynghyd â Mathemateg – Rhifedd neu Fathemateg. Mae angen tri chymhwyster TGAU arall hefyd, y gall dau ohonynt fod yn gymwysterau cyfwerth.

Er mwyn bodloni gofynion Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol, rhaid ennill gradd A*- C ym mhob un o'r pum Cymhwyster Ategol. Yn yr un modd, er mwyn bodloni Bagloriaeth Cymru Sylfaen, rhaid ennill gradd A*- G yn y Cymwysterau Ategol.

Mae'r diagram canlynol yn dangos y llwybrau tuag at gyflawni Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen.



Bydd ffocws y **Dystysgrif Her Sgiliau** ar y sgiliau cyfannol a thrawsgwricwlaidd sydd eu hangen ar bobl ifanc yn eu bywydau yn y dyfodol a chaiff y sgiliau hyn eu meithrin a'u hasesu drwy Broiect Unigol a thair Her. Cynlluniwyd y Dystysgrif Her Sgiliau i gynnwys dysgu ac asesu a fydd yn ennyn brwdfrydedd dysgwyr, yn ymgysylltu â hwy ac yn eu cymell yn yr ystafell ddosbarth, y gweithle a'r gymuned ehangach. Bydd gofyn i'r dysgwyr ystyried sut y gallant wrth ddefnyddio'r dysgu effeithio ar unigolion, cyflogwyr, y gymdeithas a'r amgylchedd. Lluniwyd y cymhwyster yn seiliedig ar y cysyniad o ddull dysgu trwy 'gynllunio, gwneud ac adolygu' lle caiff y dysgwyr eu cyflwyno i gyd-destun ar gyfer dysgu lle byddant yn cynllunio gweithgareddau, yn ymgymryd â gweithgareddau, yn adolygu deilliannau a'r hyn a ddysgir.

Gellir ymgymryd â Bagloriaeth Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog.

1.3 Nodau ac amcanion

Mae **nodau** Bagloriaeth Cymru fel a ganlyn:

- meithrin ac asesu amrywiaeth eang o sgiliau cyfannol a thrawsgwricwlaidd;
- hyrwyddo gwerth sgiliau a'r broses o feithrin y sgiliau hynny ar gyfer addysg, bywyd a gwaith;
- rhoi cyfleoedd i feithrin ac asesu sgiliau drwy brofiadau dysgu pwrpasol, ystyrlon a diddorol;
- sicrhau bod yr hyn a ddysgir yn berthnasol ac wedi'i osod o fewn cyd-destunau bywyd go iawn at ddibenion bywyd go iawn;
- adeiladu ar y cwricwlwm ehangach a fframweithiau dysgu cysylltiedig a sicrhau cysondeb â hwy.

Amcanion Bagloriaeth Cymru yw sicrhau bod dysgwyr yn gallu:

- datblygu gwerthfawrogiad o bwysigrwydd y broses o feithrin sgiliau fel agwedd allweddol ar ddysgu gydol oes;
- cymryd rhan mewn cyfleoedd gweithredol, creadigol, penagored wedi'u harwain gan y dysgwr;
- ymholi a meddwl drostynt hwy eu hunain, cynllunio, gwneud dewisiadau a phenderfyniadau, datrys problemau a myfyrio arnynt a'u gwerthuso;
- ehangu eu profiad drwy ymgysylltu â sefydliadau allanol;
- datblygu fel dinasyddion effeithiol, cyfrifol a gweithgar sy'n barod i chwarae eu rhan mewn cymdeithas fyd-eang ac yn y gweithle;
- datblygu blaengaredd, annibyniaeth a gwydnwch;
- cynyddu eu hyder a'u cymhelliant i ddysgu a meithrin sgiliau;
- gweithio'n annibynnol, ymgymryd â chyfrifoldebau a gweithio'n effeithiol gydag eraill.

1.4 Cwricwlwm i Gymru: Sgiliau cyfannol a thrawsgwricwlaidd

Nod Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen yw galluogi dysgwyr i feithrin a dangos dealltwriaeth o sgiliau cyfannol a thrawsgwricwlaidd y Cwricwlwm i Gymru, a'u hyfedredd o ran y sgiliau hynny. Dyma'r sgiliau y mae cyflogwyr ac addysgwyr cam nesaf yn eu gwerthfawrogi ac sydd eu hangen ar ddysgwyr ar gyfer dysgu, gwaith a bywyd.

Mae'r saith sgil cyfannol a thrawsgwricwlaidd fel a ganlyn:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Ddigidol
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigedd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol

Bydd Bagloriaeth Cymru yn:

- galluogi dysgwyr i atgyfnerthu a ffurfioli'r broses o ddysgu sgiliau;
- darparu dealltwriaeth ddamcaniaethol a gwybodaeth neu dechnegau yn ymwneud â sgiliau;
- annog proses o fyfrio, dadansoddi a mynegi hyfedredd y dysgwr ei hun yn y sgiliau;
- annog dysgwyr i archwilio, meithrin, ymarfer a defnyddio'r sgiliau;
- cynyddu hyder ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio a defnyddio'r sgiliau mewn amrywiaeth o gyd-destunau a phwrpasau ystyrllon a 'bywyd go iawn'.

Bydd trefniadau clir a phwrpasol ar gyfer asesu'r sgiliau hyn yn cynnwys:

LLYTHRENNEDD

Y sgiliau Llythrennedd yw'r rheini sy'n cael eu dynodi a'u hasesu drwy TGAU Cymraeg Iaith a/neu Saesneg Iaith ac y dylid eu meithrin hefyd trwy'r Project Unigol a'r Heriau.

RHIFEDD

Y sgiliau Rhifedd yw'r rheini sy'n cael eu dynodi a'u hasesu drwy TGAU Mathemateg – Rhifedd ac y dylid eu meithrin hefyd trwy'r Project Unigol a'r Heriau.

LLYTHRENNEDD DDIGIDOL

- Deall ac ymateb yn briodol i risgiau a phroblemau er mwyn cyfathrebu'n ddiogel mewn byd digidol
- Defnyddio cyfryngau digidol yn ddiogel ac yn effeithiol
- Deall eu hól troed digidol eu hunain a'i reoli
- Defnyddio, trin neu greu data a gwybodaeth a'u cyflwyno'n ddigidol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd
- Gallu dod o hyd i wybodaeth ddigidol, ei threfnu, ei storio, ei rheoli, ei rhannu a'i diogelu
- Gwerthuso dibynadwyedd ffynonellau gwybodaeth
- Defnyddio technegau a dulliau digidol ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys: cydweithio, gweithio mewn tîm, creadigedd, datrys problemau a dysgu.

MEDDWL YN FEIRNIADOL A DATRYS PROBLEMAU

- Deall a defnyddio dulliau a thechnegau gwneud penderfyniadau a datrys problemau
- Nodi a dadansoddi problemau neu faterion
- Nodi atebion neu ymatebion posibl a'r rhesymau dros wahanol safbwyntiau
- Gallu cyfiawnhau penderfyniadau
- Nodi a datblygu dadleuon
- Asesu cryfder opsiynau a dadleuon mewn ffordd feirniadol, gan ystyried safbwyntiau croes neu syniadau amgen, dilysrwydd a dibynadwyedd
- Dangos gwydnwch a dyfalbarhad
- Myfyrio ar ddulliau a thechnegau ar gyfer meddwl yn feirniadol, gwneud penderfyniadau a datrys problemau a hyfedredd personol yn hyn o beth.

CREADIGEDD AC ARLOESI

- Deall sut i feddwl am syniadau a nodi cyfleoedd a manteisio i'r eithaf arnynt a gallu gwneud hynny
- Dangos syniadau gwreiddiol a gallu i nodi a herio rhagdybiaethau
- Gallu cyfuno neu ddatblygu syniadau
- Asesu a gwerthuso syniadau, dewis opsiynau a'u rhoi ar waith
- Dangos dychymyg a blaengaredd
- Myfyrio ar y broses a nodi sut y gellid ei gwella.

CYNLLUNIO A THREFNU

- Deall pwysigrwydd nodau ac amcanion clir
- Gallu datblygu a chytuno ar nodau ac amcanion a phennu targedau neu gerrig milltir
- Dangos cyfrifoldeb a dibynadwyedd
- Gallu llunio cynllun, nodi a rheoli adnoddau, terfynau amser, gweithgareddau a dyrannu cyfrifoldebau
- Dethol, trefnu a gwerthuso gwybodaeth sy'n berthnasol i'r amcan neu'r cynllun
- Rhoi'r cynllun ar waith
- Monitro a gwerthuso'r cynllun, ei ddiwygio fel y bo'r angen ac addasu i newid
- Nodi risgiau ac ymateb iddynt
- Myfyrio ar y broses gynllunio a'i chanlyniadau a'i gwerthuso.

EFFEITHIOLRWYDD PERSONOL

- Deall, rheoli a gwella ymddygiad a pherfformiad personol
- Dangos blaengaredd ac annibyniaeth
- Gwerthuso effeithiolrwydd personol
- Rheoli amser yn effeithiol
- Gallu ymateb yn briodol i achosion o wrthdaro
- Deall rolau a thimau
- Gweithio'n effeithiol fel rhan o dîm
- Parchu ac ymateb i werthoedd a safbwyntiau eraill, gan gyflwyno eich safbwyntiau eich hun yn effeithiol.

1.5 Dilyniant

Mae Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen ar gael i ddysgwyr ôl-14. Gall dysgwyr sy'n cyflawni Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen symud ymlaen i gymhwyster Bagloriaeth Cymru Uwch, neu o 2023 ymlaen, y cymhwyster Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch.

2 STRWYTHUR Y CYMHWYSTER

2.1 Tystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen CBAC

Dyrannwyd 120 o oriau dysgu dan arweiniad ar gyfer cwblhau'r Dystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen; mae hyn yn rhoi amser i'r dysgwyr feithrin sgiliau cyfannol a thrawsgwricwlaidd y Cwricwlwm i Gymru i'r lefel briodol ac i asesu'r Project Unigol a'r dwy her a ddewisir. Mae'r amser hwn yn cynnwys amser addysgu, gwaith ymarferol dan oruchwyliaeth y tu allan i'r ystafell ddosbarth ac amser astudio dan oruchwyliaeth. Ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen, gallai fod angen mwy o oriau dysgu dan arweiniad ar ddechrau'r cymhwyster i ddatblygu'r holl sgiliau. Disgwylir bod y rhaglen addysgu a dysgu yn datblygu ac ymarfer pob un o'r sgiliau cyfannol, dim ots pa Heriau a ddewisir i'w gwneud i'w hasesu, cyn parhau'n fanylach i ddatblygu'r sgiliau hynny sy'n benodol i'r Her gyntaf. Wrth symud drwy'r cymhwyster, efallai mai adolygu neu ond ailymweld â'r sgiliau yw'r cyfan sydd ei angen yn ystod oriau dysgu dan arweiniad gan fod y sgil hwnnw eisoes wedi'i addysgu ar gyfer Her flaenorol. Bydd y model cyflwyno a fabwysiedir ar gyfer y cymhwyster a'r drefn y cyflawnir yr Heriau a ddewisir ynddi yn pennu sut y dyrennir oriau dysgu dan arweiniad drwy gydol cylch y cymhwyster.

Gall pob dysgwr ymgymryd â'r un pynciau ar gyfer Projectau Unigol a'r un Briffiau Her, a chaiff cyrhaeddiad naill ai ar lefel Genedlaethol neu Sylfaen ei bennu drwy asesiad. Wrth gwblhau'r Heriau a ddewisir ar gyfer yr asesiad, rhaid cwblhau'r **Her Dinasyddiaeth Fyd-eang fel unigolyn**, yr **Her Menter a Chyflogadwyedd** cael ei chwblhau **mewn tîm**, (sydd yn cynnwys 3-6 aelod), a **Her y Gymuned** fel naill ai unigolyn neu mewn tîm.

Bydd paratoi ar gyfer y cydrannau yn rhoi cyfle i'r dysgwyr feithrin a defnyddio'r holl sgiliau cyfannol a thrawsgwricwlaidd. Fodd bynnag, bydd y broses o asesu y cydrannau a ddewisir yn canolbwyntio ar sgiliau penodol, fel y nodir yn y tablau canlynol.

Cydrannau'r Dystysgrif Her Sgiliau	Pwysoli	Sgiliau a Asesir	Asesiad Mewnol	Cymedro li Allanol
Project Unigol (Gorfodol)	50%	- Cynllunio a Threfnu - Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau - Llythrennedd Ddigidol	✓	✓

Mae gofyn i ddysgwyr gwblhau **dwyt** o'r **tair** cydran Her. Dewis y ganolfan yr pa cydrannau a ddewisir i'w cwblhau. Gall pob dysgwr o fewn canolfan gwblhau'r un ddwy Her, neu gall canolfan gofrestru dysgwyr ar gyfer cyfuniadau o Heriau gwahanol, yn dibynnu ar ddiddordeb neu allu dysgwyr. Mae'r ddwy elfen Her a ddewiswyd i'w hasesu o'r tair sydd ar gael wedi'u hamlinellu yn y tabl canlynol, a byddant yn ffurfio 50% o'r cymhwyster.

Cydrannau'r Dystysgrif Her Sgiliau	Pwysoli	Sgiliau a Asesir	Asesiad Mewnol	Cymedroli Allanol
Her Menter a Chyflogadwyedd (Dewisol)	25%	• Creadigedd ac Arloesi • Effeithiolrwydd Personol • Llythrennedd Ddigidol	✓	✓
Her Dinasyddiaeth Fyd-eang (Dewisol)	25%	• Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau • Creadigedd ac Arloesi	✓	✓
Her y Gymuned (Dewisol)	25%	• Cynllunio a Threfnu • Effeithiolrwydd Personol	✓	✓

Mae manylion y Project Unigol a'r Heriau i'w gweld yn **Adran 3**.

2.2 Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol CBAC

Er mwyn cyflawni Bagloriaeth Cymru **Cenedlaethol**, rhaid i'r dysgwyr gyflawni'r Dystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol ynghyd â'r Cymwysterau Ategol canlynol:

- TGAU Cymraeg Iaith neu TGAU Saesneg Iaith ar raddau A* - C;
- TGAU Mathemateg – Rhifedd neu TGAU Mathemateg ar raddau A* - C;
- O leiaf dri chymhwyster TGAU arall ar raddau A*- C, y gall dau ohonynt fod yn gymwysterau cyfwerth. (gweler isod)

2.3 Bagloriaeth Cymru Sylfaen CBAC

Er mwyn cyflawni Bagloriaeth Cymru **Sylfaen**, rhaid i'r dysgwyr gyflawni'r Dystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol neu Sylfaen ynghyd â'r Cymwysterau Ategol canlynol:

- TGAU Cymraeg Iaith neu TGAU Saesneg Iaith ar raddau A*- G;
- TGAU Mathemateg – Rhifedd neu TGAU Mathemateg ar raddau A*- G;
- leiaf dri chymhwyster TGAU arall ar raddau A*- G, y gall dau ohonynt fod yn gymwysterau cyfwerth. (gweler isod)

Cymwysterau Cyfatebol

Mae'n rhaid i'r cymhwyster sy'n cyfateb ag un TGAU fod o leiaf 120 ODA.

Mae'n rhaid i gymhwyster sy'n cyfateb â dau TGAU fod o leiaf 240 ODA.

3 CYDRANNAU

3.1 Strwythur y Cydrannau

Teitl y gydran

Mae teitl y gydran yn crynhoi cynnwys y gydran mewn ffordd gryno

Diben

Mae'r diben yn darparu crynodeb clir o'r gydran.

Rhagarweiniad

Caiff hwn ei ysgrifennu er mwyn helpu canolfannau i egluro diben y dysgu sy'n rhan o'r gydran i'r dysgwyr.

Canllawiau cyflwyno

Mae'r rhain yn rhoi syniadau i'r athro ynghylch sut i gyflwyno'r gydran. Mae'r canllawiau hefyd yn cynnig syniadau ynghylch cyd-destun ar gyfer y gydran ac yn awgrymu cysylltiadau posibl y gellid eu gwneud wrth addysgu.

Tystiolaeth i'w Hasesu

Mae'r adran hon yn crynhoi'r gofynion asesu ac yn rhoi manylion am y dystiolaeth i'w hasesu i'r dysgwr a'r athro.

Rhaglen addysgu a dysgu a awgrymir

Mae'r cynnwys dangosol yn diffinio ehangder a dyfnder y dysgu ar gyfer pob sgil benodol ac ar gyfer cyd-destun y gydran. Disgwylir i'r holl gynnwys dangosol gael ei gyflwyno yn ystod y rhaglen ddysgu. Nid oes angen asesu pob agwedd ar y cynnwys wrth asesu'r gydran. Bydd disgwyl i'r dysgwyr gymhwyso'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a feithrinwyd drwy'r dysgu at fanylion unigol y deilliannau dysgu.

Deilliannau dysgu

Mae deilliannau dysgu yn datgan beth y dylai'r dysgwr ei wybod, ei ddeall neu allu ei wneud o ganlyniad i gwblhau'r dysgu yn y gydran.

Bandiau Perfformiad

Mae'r bandiau perfformiad yn dynodi'r safon y mae dysgwr wedi'i dangos ar gyfer deilliant dysgu'r gydran honno. Defnyddir y sgôr ar gyfer y bandiau perfformiad i bennu'r radd gyfunol ar gyfer y gydran.

3.2 Project Unigol

Diben

Diben y Project Unigol yw meithrin sgiliau dysgwyr, drwy ymgymryd â gweithgaredd ymchwil mewn maes sydd o ddiddordeb personol iddyn nhw neu sy'n adlewyrchu dyheadau ar gyfer y dyfodol o ran addysg neu yrfa. Yn ystod y Project Unigol, bydd y dysgwyr yn meithrin sgiliau penodol ym maes **Llythrennedd Ddigidol, Cynllunio a Threfnu a Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau** ac yn eu defnyddio mewn modd priodol.

Cyflwyniad

Ar ba ffurf y dylid cyflwyno'r Project Unigol?

Pa sgiliau y bydd y dysgwr yn eu meithrin ac yn eu defnyddio er mwyn ymgymryd â'r Project Unigol?

A yw dysgu unigol yn golygu na all y dysgwr gael help?

Rhaid llunio'r Project Unigol a'i gyflwyno naill ai fel adroddiad ysgrifenedig neu fel arteffact/cynnyrch wedi'i ategu gan dystiolaeth ysgrifenedig. Mae amrywiaeth eang o bosibiliadau y gellir eu dewis fel ffocws ar gyfer y Project Unigol ac anogir y dysgwyr i ystyried maes sydd o ddiddordeb personol iddyn nhw neu sy'n adlewyrchu eu dyheadau ar gyfer y dyfodol o ran addysg neu yrfa.

Er mwyn ymgymryd â Phroject Unigol a'i gwblhau, mae angen i'r dysgwyr feithrin a defnyddio amrywiaeth eang o sgiliau priodol. Wrth gwblhau'r Project Unigol, bydd y dysgwyr yn cydnabod pwysigrwydd gwaith ymchwil wrth wneud penderfyniadau hyddysg. Caiff y dysgwyr eu hannog i ddod o hyd i wybodaeth, ei dadansoddi, ei chyfleu a'i defnyddio i ddatrys problemau cymhleth. Caiff y dysgwyr y cyfle i ddangos gwreiddioldeb, blaengaredd ac i arfer cyfrifoldeb personol.

Bydd y sgiliau angenrheidiol yn cynnwys:

- sgiliau cynllunio a threfnu a fydd yn galluogi'r dysgwyr i reoli'r dasg;
- sgiliau ymchwilio;
- caffael y wybodaeth a'r data gofynnol ac ymdrin â hwy;
- sgiliau meddwl yn feirniadol a fydd yn eu galluogi i ddadansoddi a defnyddio gwaith ymchwil yn effeithiol;
- sgiliau datrys problemau a fydd yn eu galluogi i oresgyn heriau a chynnig atebion;
- sgiliau cyfathrebu a llythrennedd ddigidol i ategu eu gwaith ymchwil a'u gallu i gyflwyno gwybodaeth.

Er yr anogir y dysgwyr i weithio'n annibynnol, mewn ffordd hyblyg a chreadigol, dylent gael cefnogaeth i ddatblygu sgiliau priodol.

Canllawiau cyflwyno

Ar y lefel hon, awgrymir y dylai dysgwyr dreulio tua **40 awr** ar y Project Unigol gyda rhaglen addysgu a dysgu briodol wedi'i hanelu at feithrin y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol. At ddiben y Project Unigol, bydd ffocws penodol ar addysgu, dysgu ac asesu **Llythrennedd Ddigidol, Cynllunio a Threfnu a Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau**.

Ar y lefel hon dylid dysgu dysgwyr a'u hannog i weithio'n annibynnol, i geisio cyngor ac i weithio ar sail y cyngor. Awgrymir y dylai dysgwyr ymgymryd â'r Project Unigol ar ôl meithrin yr amrywiaeth lawn o sgiliau cyfannol a thrawsgwricwlaidd drwy gydrannau'r Heriau.

Dim ond yn ystod ail flwyddyn rhaglen Bagloriaeth Cymru'r dysgwyr y gellir cyflwyno'r Project Unigol i CBAC ei asesu.

Tystiolaeth i'w Hasesu

Dylid cyflwyno'r Project Unigol ar ffurf ysgrifenedig rhwng 1,000 a 2,000 o eiriau, gyda neu heb gynnyrch/artefact. Dylid cyflwyno gwaith ysgrifenedig gan ddefnyddio prosesydd geiriau a dylai gynnwys amrywiaeth o graffiau, delwedddau, tablau ystadegol, diagramau a lluniau.

Nid yw'n ofynnol i'r dysgwyr sy'n cynhyrchu cynnyrch/artefact gyflwyno'r deilliant terfynol, ond rhaid iddyn nhw ddarparu tystiolaeth glir o'r ffordd y cafodd y cynnyrch/artefact ei gynllunio a'i ddatblygu. Rhaid cyflwyno tystiolaeth o'r cynnyrch/artefact terfynol hefyd er mwyn sicrhau y gall y safonwr ystyried safon y deilliant. Gellir cyflwyno'r dystiolaeth hon mewn amrywiaeth o ffyrdd (e.e. ffotograffig, electronig) ond rhaid i'r dull a ddewisir fod yn briodol ac o ansawdd uchel.

Engbreiffitiau o'r hyn i'w gynnwys mewn rhaglen addysgu a dysgu priodol

Cynllunio a Threfnu

- Datblygu nodau ac amcanion
- Llundio cynlluniau gweithredu – gosod amserlenni, cerrig milltir a therfynau amser, nodi is-dasgau a gweithgareddau, gosod targedau, nodi adnoddau, nodi risgiau, defnyddio dulliau cynllunio
- Nodi, dethol a choladu gwybodaeth a data rhifiadol o amrywiaeth o ffynonellau

Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau

- Nodi, ystyried a defnyddio amrywiaeth o ffeithiau, barnau a safbwyntiau
- Nodi, datblygu a dadansoddi dadleuon
- Asesu a llunio dadleuon mewn modd beirniadol
- Mynegi eich safbwyntiau eich hun ac ystyried safbwyntiau pobl eraill
- Nodi gwybodaeth, adnoddau a deunyddiau ar gyfer datrys problem
- Nodi gwybodaeth a ffactorau allweddol gan gynnwys achosion, newidiadau, canlyniadau, nodweddion tebyg a gwahaniaethau
- Llundio barnau
- Crynhoi a chyflwyno canfyddiadau

Llythrennedd Ddigidol

- Defnyddio technegau digidol i gyflwyno tablau, graffiau a diagramau
- Asesu hygyrdded gwybodaeth a ffynonellau – p'un a ydynt yn gyfoes, yn ddibynadwy ac yn ddilys
- Storio data mewn fformat addas

Llythrennedd

- Ysgrifennu brawddegau cyfansawdd gan gynnwys sillafu cywir, gramadeg sylfaenol ac atalnodi
- Creu rhesymeg
- Dulliau cyfeirio ffynonellau – llên-ladrad, llunio llyfryddiaeth
- Coladu a chyfosod gwybodaeth a data rhifiadol

Rhifedd

- Ffynonellau gwybodaeth – rhynggrwyd, llyfrau, cylchgronau, cyfryngau
- Dulliau ar gyfer casglu gwybodaeth a data rhifiadol eich hun – cyfweiliad, holiadur, arsylwi
- Dulliau ar gyfer dadansoddi data rhifiadol – cymedr, canolrif, modd, amrediad, canrannau, ffractsiynau, cymarebau
- Dulliau o arddangos gwybodaeth a data rhifiadol – siart bar, siart cylch, graff llinell

Yng nghyd-destun y Project:

- Meithrin sgiliau a thechnegau sy'n berthnasol i gyd-destun Project Unigol
- Dulliau o gyflwyno'r deiliant - ansawdd, addas i'r diben
- Myfyrio ar berfformiad personol - defnydd o ddulliau hunanwerthuso

Asesu'r Project Unigol

Lle nad oes tystiolaeth neu'r gwaith ddim yn haeddu credyd – 0 marc

Deilliannau Dysgu	Bandiau Perfformiad			
	Band 1 1 – 3 marc	Band 2 4 – 6 marc	Band 3 7 – 9 marc	Band 4 10 – 12 marc
DD1 Deall sut i nodi ffocws a chwmpas project unigol	Cyflwyniad cyfyngedig i'r pwnc yr ymchwiliwyd iddo gan gynnwys nodau a/neu amcanion sylfaenol.	Cyflwyniad sylfaenol i'r pwnc yr ymchwiliwyd iddo gan gynnwys nodau ac amcanion perthnasol.	Cyflwyniad manwl i'r pwnc yr ymchwiliwyd iddo gan gynnwys nodau ac amcanion priodol.	Cyflwyniad manwl ac effeithiol i'r pwnc yr ymchwiliwyd iddo gan gynnwys nodau ac amcanion priodol a realistig.
DD2 Gallu dethol a chynllunio dulliau, adnoddau a deunyddiau ymchwil	Rhesymeg gyfyngedig gan gynnwys cynlluniau i gyflawni'r nodau a'r amcanion. Detholwyd dulliau, adnoddau a deunyddiau ymchwil sylfaenol.	Rhesymeg sylfaenol gan gynnwys cynlluniau i gyflawni'r nodau a'r amcanion. Detholwyd dulliau, adnoddau a deunyddiau ymchwil perthnasol.	Rhesymeg fanwl gan gynnwys cynlluniau i gyflawni'r nodau a'r amcanion. Detholwyd dulliau, adnoddau a deunyddiau ymchwil priodol.	Rhesymeg fanwl ac effeithiol, gan ddisgrifio'r penderfyniadau cynllunio i'w gwneud wrth ymdrin â'r nodau a'r amcanion. Detholwyd dulliau, adnoddau a deunyddiau ymchwil priodol ac effeithiol.
DD3 Gallu dethol, coladu, cyfeirio ac asesu hygredded gwybodaeth a data rhifiadol	Dewiswyd, coladwyd a chyfeiriwyd at wybodaeth a data rhifiadol eilaidd a chynradd cyfyngedig. Ystyriaeth gyfyngedig o hygredded y ffynonellau a ddefnyddiwyd gan gynnwys p'un a ydynt yn gyfoes, yn ddibynadwy ac yn ddilys	Dewiswyd, coladwyd a chyfeiriwyd at wybodaeth a data rhifiadol eilaidd a chynradd sylfaenol. Ystyriaeth sylfaenol o hygredded y ffynonellau a ddefnyddiwyd gan gynnwys p'un a ydynt yn gyfoes, yn ddibynadwy ac yn ddilys.	Dewiswyd, coladwyd a chyfeiriwyd at wybodaeth a data rhifiadol eilaidd a chynradd priodol. Ystyriaeth fanwl o hygredded y ffynonellau a ddefnyddiwyd gan gynnwys p'un a ydynt yn gyfoes, yn ddibynadwy ac yn ddilys.	Dewiswyd, coladwyd a chyfeiriwyd at amrywiaeth o wybodaeth a data rhifiadol eilaidd a chynradd priodol. Ystyriaeth fanwl ac effeithiol o hygredded y ffynonellau a ddefnyddiwyd gan gynnwys p'un a ydynt yn gyfoes, yn ddibynadwy ac yn ddilys.
DD4 Gallu dadansoddi'r data rhifiadol a gasglwyd a'u harddangos gan ddefnyddio technegau digidol	Dadansoddiad cyfyngedig o'r data rhifiadol a gasglwyd. Defnydd cyfyngedig o dechnegau digidol i arddangos data rhifiadol.	Dadansoddiad sylfaenol o'r data rhifiadol a gasglwyd. Defnydd sylfaenol o dechnegau digidol i arddangos data rhifiadol.	Dadansoddiad manwl o'r data rhifiadol a gasglwyd. Defnydd priodol o dechnegau digidol i arddangos data rhifiadol.	Dadansoddiad manwl ac effeithiol o'r data rhifiadol a gasglwyd. Defnydd priodol ac effeithiol o dechnegau digidol i arddangos data rhifiadol.

Lle nad oes tystiolaeth neu'r gwaith ddim yn haeddu credyd – 0 marc

Deilliannau Dysgu	Bandiau Perfformiad			
	Band 1 1 – 3 marc	Band 2 4 – 6 marc	Band 3 7 – 9 marc	Band 4 10 – 12 marc
DD5 Gallu cyfod, dadansoddi a defnyddio gwybodaeth a safbwyntiau	Gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o'r pwnc. Cyfod, dadansoddi a defnyddio gwybodaeth a safbwyntiau mewn modd cyfyngedig.	Gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o'r pwnc. Cyfod, dadansoddi a defnyddio gwybodaeth a safbwyntiau mewn modd sylfaenol.	Gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r pwnc. Cyfod, dadansoddi a defnyddio gwybodaeth a safbwyntiau mewn modd manwl.	Gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl ac effeithiol o'r pwnc. Cyfod, dadansoddi a defnyddio gwybodaeth a safbwyntiau mewn modd manwl ac effeithiol.
DD6 Gallu llunio a chyflwyno deiliant	Defnydd cyfyngedig o sgiliau a thechnegau sylfaenol. Llwyddiant cyfyngedig wrth lunio a chyflwyno deiliant terfynol er mwyn ymdrin â nodau'r project.	Defnydd sylfaenol o sgiliau a thechnegau perthnasol. Llwyddiant ar y cyfan wrth lunio a chyflwyno deiliant terfynol sy'n ymdrin â nodau'r project.	Defnydd effeithiol o sgiliau a thechnegau priodol. Yn llwyddo i lunio a chyflwyno deiliant terfynol sy'n ymdrin â nodau'r project.	Defnydd effeithlon ac effeithiol o amrywiaeth o sgiliau a thechnegau priodol. Yn llwyddo i lunio a chyflwyno deiliant terfynol sy'n ymdrin â nodau'r project yn effeithiol.
DD7 Gallu llunio barn a dod i gasgliadau	Lluniwyd barn gyfyngedig. Casgliadau cyfyngedig ar y deiliant wrth ymdrin â ffocws a chwmpas y project unigol.	Lluniwyd barn sylfaenol. Casgliadau sylfaenol ar y deiliant wrth ymdrin â ffocws a chwmpas y project unigol.	Lluniwyd barn fanwl. Casgliadau manwl ar y deiliant wrth ymdrin â ffocws a chwmpas y project unigol.	Lluniwyd barn fanwl a rhesymegol. Casgliadau manwl a rhesymegol ar y deiliant wrth ymdrin â ffocws a chwmpas y project unigol.
DD8 Gallu myfrio ar gryfderau a gwendidau eich perfformiad personol	Nodwyd cryfderau a gwendidau cyfyngedig o ran perfformiad personol, gan gynnwys prosesau cynllunio, datrys problemau a chwblhau.	Myfrio sylfaenol ar gryfderau a gwendidau o ran perfformiad personol, gan gynnwys prosesau cynllunio, datrys problemau a chwblhau.	Myfrio manwl ar berfformiad personol, gan gynnwys prosesau cynllunio, datrys problemau a chwblhau.	Myfrio manwl a rhesymegol ar berfformiad personol, gan gynnwys prosesau cynllunio, datrys problemau a chwblhau.

3.3 Her Menter a Chyflogadwyedd

Diben

Diben yr Her Menter a Chyflogadwyedd yw meithrin sgiliau dysgwyr, wrth ddarparu cyfleoedd i'r dysgwyr feithrin sgiliau a phriodoleddau mentrus a gwella cyflogadwyedd. Fel rhan o'r Her Menter a Chyflogadwyedd, bydd y dysgwyr yn meithrin sgiliau penodol ym maes **Llythrennedd Ddigidol**, **Creadigedd ac Arloesi** ac **Effeithiolrwydd Personol** ac yn eu cymhwyso mewn modd priodol.

Cyflwyniad

Pa gyfleoedd a phrofiadau y gallaf eu disgwyl o'r Her Menter a Chyflogadwyedd?

Pa sgiliau y bydd y dysgwyr yn gallu eu meithrin a'u defnyddio?

Beth yn union yw'r Her hon?

Yn y byd sydd ohoni, bydd yn ddymunol i'r dysgwr feithrin ffordd fentrus o feddwl a all wella ei ragolygon gyrfa. Fel rhan o'r Her hon, caiff y dysgwyr y cyfle i greu syniadau arloesol yn seiliedig ar ddiwallu anghenion cwsmeriaid a/neu fusnesau drwy ddatblygu cynnyrch neu wasanaeth ac i roi'r syniadau hynny ar waith. Gellir cyflawni hyn a'i wella drwy ddilyn proses fenter sy'n cynnwys cysylltu â chyflogwyr a rhyngweithio ag entrepreneuriaid lleol llwyddiannus.

Bydd yr her hon yn gwella cyflogadwyedd drwy alluogi'r dysgwyr i ganolbwyntio mwy ar gyfleoedd, i fod yn fwy hunanymwybodol ac yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd busnes.

Mae pobl ifanc heddiw yn aml yn datgan eu bod am fod yn feistr arnyn nhw eu hunain, sefydlu eu cwmni eu hunain neu ennill bywoliaeth o ganlyniad i ddiddordeb brwd personol. Mae'r Fenter Her a Chyflogadwyedd yn rhoi cyfle i'r dysgwr feithrin y sgiliau creadigedd ac arloesi sydd eu hangen i ddod yn entrepreneur. Bydd y dysgwyr yn gallu ennyn gwerthfawrogiad o'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol a chyfryngau electronig eraill yn y byd busnes. Bydd y dysgwyr hefyd yn gallu meithrin a defnyddio sgiliau llythrennedd ddigidol mewn ffyrdd creadigol ac arloesol.

Mae'r Her Menter a Chyflogadwyedd yn rhoi cyfle i'r dysgwyr feithrin sgiliau pwysig o ran gweithio mewn tîm. Bydd y dysgwyr yn gallu cydnabod y cyfraniadau y gallant eu gwneud wrth gydweithio gyda'u cyfoedion, cynghorwyr busnes a darpar gwsmeriaid i ddatblygu cysyniad busnes. Drwy weithio'n effeithiol ag eraill, bydd y dysgwyr yn meithrin cydberthnasau gwaith cadarnhaol ac yn gallu cymryd cyfrifoldeb a gweithio'n annibynnol. Bydd angen agwedd gallu gwneud ar y dysgwyr a'r penderfyniad i roi syniadau ar waith yn ogystal â'r gallu i fentro a rheoli eu rolau a'u cyfraniadau yn effeithiol.

Mae'r Her Menter a Chyflogadwyedd yn gofyn iddyn nhw ddatblygu syniad a chynnig busnes, gan enghreifftio'r cynigion terfynol fel arddangosfa weledol a'u cyflwyno gerbron panel.

Canllawiau Cyflwyno

Ar y lefel hon, awgrymir y dylai dysgwyr dreulio tua **30 awr** ar yr Her gydag amser priodol yn cael ei dreulio'n meithrin y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth berthnasol. Dyrennir o leiaf **13 awr** i gynhyrchu'r dystiolaeth sydd ei hangen i asesu'r Her.

At ddiben yr Her hon, bydd ffocws penodol ar addysgu, dysgu ac asesu **Llythrennedd Ddigidol, Creadigedd ac Arloesi** ac **Effeithiolrwydd Personol**.

Er mwyn cyflawni'r her hon bydd yn hanfodol i'r dysgwyr naill ai ymweld â busnesau priodol a/neu i siaradwyr gwadd priodol ymweld â hwy. Bydd entrepreneuriaid sy'n gallu sôn am y sgiliau yr oedd angen iddyn nhw eu meithrin er mwyn sefydlu eu busnes neu fenter gymdeithasol a'r ffynonellau cymorth a ddefnyddiwyd ganddynt yn amhrisiadwy.

Ar y lefel hon, disgwylir i'r dysgwyr weithio mewn timau sy'n cynnwys rhwng 3 a 6 aelod.

Mae Briffiau Her sydd wedi'u cymeradwyo yn y [Gronfa Heriau](#) ar dudalen we Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen

Enghreifftiau o syniadau busnes

Cynnyrch

- Datblygu gêm fwrdd i blant ifanc
- Cynhyrchu crysau-T i hyrwyddo digwyddiad cerddorol/diwylliannol lleol

Gwasanaeth

- Gwasanaeth ail-gyflyru ar gyfer beiciau
- Gwasanaeth golchi a glanhau ceir

Tystiolaeth i'w Hasesu

Rhaid i bob dysgwr ddarparu tystiolaeth ategol o **Archwiliad Sgiliau, Arddangosfa Weledol** o gynrig busnes, **Cofnodion cyfarfodydd tîm, Datganiad Cadarnhau** ar gyfer y Cyflwyniad gerbron Panel a **Myfyrdod Personol**.

Archwiliad Sgiliau

Diben yr Archwiliad Sgiliau yw helpu pob dysgwr i nodi, cynllunio, meithrin a gwella'r sgiliau personol sydd eu hangen i gyflawni'r Her Menter a Chyflogadwyedd yn llwyddiannus.

Rhaid i'r Archwiliad Sgiliau gynnwys tystiolaeth o'r canlynol:

- nodi sgiliau personol a sgiliau gweithio mewn tîm cyfredol sy'n berthnasol i'r Her
- nodi unrhyw sgiliau personol a sgiliau gweithio mewn tîm ychwanegol y mae'n debygol y bydd eu hangen
- cynllunio ar gyfer meithrin a gwella sgiliau perthnasol

Arddangosfa Weledol

Gallai'r Arddangosfa Weledol o'r cynrig busnes gynnwys tystiolaeth o'r canlynol:

- nodau, amcanion a manylion y cynnyrch, gwasanaeth neu bartneriaeth busnes
- darpar gwsmeriaid/cleientiaid
- goblygiadau ariannol gan gynnwys dadansoddiad costau
- deunyddiau marchnata a hyrwyddo (gan ddefnyddio technoleg ddigidol)

Cofnodion cyfarfodydd tîm

Dylai'r cofnodion fod yn ddigon manwl i ddangos y canlynol:

- rolau a chyfrifoldebau (yr unigolyn a'r tîm);
- rheoli amser, ymddygiad personol a gweithio mewn tîm.

Datganiad Cadarnhau

Rhaid i Ddatganiad Cadarnhau'r Cyflwyniad gerbron Panel gofnodi safon y sgiliau cyflwyno a ddangoswyd.

Myfyrdod Personol

Rhaid i'r Myfyrdod Personol gynnwys tystiolaeth o'r canlynol:

- rôl/cyflawniad personol i'r her;
- cofnodion o'r gwaith tîm gan gynnwys effeithiolrwydd personol;
- dadansoddiad o feithrin a defnyddio sgiliau personol a sgiliau gweithio mewn tîm.

Engbreifftau o'r hyn i'w gynnwys mewn rhaglen addysgu a dysgu priodol

Creadigedd ac Arloesi

- Meddwl am syniadau newydd.
- Perchenogaeth dros eich syniadau eich hun a pharch at syniadau pobl eraill.
- Nodi a herio rhagdybiaethau.
- Defnyddio dychymyg a blaengaredd.
- Ystyried opsiynau – manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd.
- Asesu a gwerthuso syniadau – defnyddio dadansoddiad SWOT i ddewis y syniad mwyaf ymarferol.
- Cyfuno a datblygu syniadau.
- Nodi, dewis a defnyddio atebion er mwyn bodloni gofynion newydd.
- Rhoi atebion ar waith.
- Myfyrio ar brosesau a deilliannau.

Effeithiolrwydd Personol

Hunanasesu

- Ymrwymiad i ddysgu a hunan-wella.
- Asesu sgiliau personol a rhinweddau, cryfderau a gwendidau.
- Datblygu cynllun dysgu unigol gan ddefnyddio targedau SMART.
- Cofnodi ac adolygu cyflawniadau yn erbyn targedau.

Hunan reoli

- Rheoli amser.
- Rheoli adnoddau.
- Gosod blaenoriaethau a nodau personol a blaenoriaethau a nodau tîm.
- Gofyn am gyngor neu help a gweithredu'n unol â hynny.
- Myfyrio ar berfformiad personol, defnyddio adnoddau hunanwerthuso.

Cydberthnasau gwaith

- Adeiladu timau – deall rolau a chyfrifoldebau, cydberthnasau gwaith cadarnhaol.
- Defnyddio ymddygiad priodol – cydweithio, cyfaddawdu, annog, parchu.
- Cyflwyno eich safbwyntiau eich hun, gwerthfawrogi barn a safbwyntiau eraill ac ymateb yn briodol iddynt.

Yng nghyd-destun yr Her:

- Trefnu cyfarfodydd - agenda, cofnodion.
- Llunio cynllun gweithredu a gosod nod mewn sefyllfaoedd tîm.
- Nodi a dethol adnoddau priodol.
- Y cysyniad o bum elfen – cynnyrch, pris, lleoliad, hyrwyddo a phobl (y '5P' yn Saesneg - *'product, price, place, promotion and people'*)
- Cynhyrchu deunyddiau hyrwyddo gan gynnwys defnyddio cyfryngau cymdeithasol.
- Cynllunio ariannol.
- Dulliau o waith ymchwil i'r farchnad.
- Paratoi a chyflwyno cynnig busnes gerbron panel.
- Paratoi cais am rôl o fewn y tîm.

Asesu'r Her Menter a Chyflogadwyedd

Lle nad oes tystiolaeth neu'r gwaith ddim yn haeddu credyd – 0 marc

Deilliannau Dysgu	Bandiau Perfformiad			
	Band 1 1 – 3 marc	Band 2 4 – 6 marc	Band 3 7 – 9 marc	Band 4 10 – 12 marc
DD1 Gallu cymhwyso Creadigedd ac Arloesi	Meddyliwyd am syniadau cyfyngedig ar gyfer cysyniad o fenter gan gynnwys ystyried cryfderau a gwendidau. Dewiswyd, datblygwyd a gweithredwyd syniad addas. Myfyrdod cyfyngedig ar y broses sy'n gysylltiedig â datblygu cysyniad newydd.	Meddyliwyd am syniadau sylfaenol ar gyfer cysyniad o fenter gan gynnwys ystyried cryfderau a gwendidau. Dewiswyd, datblygwyd a gweithredwyd syniad realistig. Myfyrdod sylfaenol ar y broses sy'n gysylltiedig â datblygu cysyniad newydd.	Meddyliwyd am syniadau priodol ar gyfer cysyniad o fenter gan gynnwys ystyried cryfderau a gwendidau. Dewiswyd, datblygwyd a gweithredwyd syniad priodol a dichonadwy. Myfyrdod manwl ar y broses sy'n gysylltiedig â datblygu cysyniad newydd.	Meddyliwyd am syniadau priodol a realistig ar gyfer cysyniad o fenter gan gynnwys ystyried cryfderau a gwendidau. Dewiswyd, datblygwyd a gweithredwyd syniad dichonadwy, realistig ac effeithiol. Gwerthusiad manwl a chytbwys o'r broses sy'n gysylltiedig â datblygu cysyniad newydd.
DD2 Deall Effeithiolrwydd Personol	Archwiliad cyfyngedig o sgiliau personol a sgiliau tîm gan gynnwys cynlluniau ar gyfer gwella. Perfformiad sylfaenol o'ch rôl a'ch cyfrifoldebau eich hun gan gynnwys rheoli amser, ymddygiad, sgiliau personol a gweithio mewn tîm. Myfyrdod cyfyngedig ar feithrin a defnyddio sgiliau personol a sgiliau gweithio mewn tîm.	Archwiliad sylfaenol o sgiliau personol a sgiliau tîm gan gynnwys cynlluniau ar gyfer gwella. Perfformiad digonol o'ch rôl a'ch cyfrifoldebau eich hun gan gynnwys rheoli amser, ymddygiad, sgiliau personol a gweithio mewn tîm. Myfyrdod sylfaenol ar feithrin a defnyddio sgiliau personol a sgiliau gweithio mewn tîm.	Archwiliad manwl o sgiliau personol a sgiliau tîm gan gynnwys cynlluniau ar gyfer gwella. Perfformiad effeithiol o'ch rôl a'ch cyfrifoldebau eich hun gan gynnwys rheoli amser, ymddygiad, sgiliau personol a gweithio mewn tîm. Myfyrdod manwl a rhesymegol ar feithrin a defnyddio sgiliau personol a sgiliau gweithio mewn tîm.	Archwiliad manwl ac effeithiol o sgiliau personol a sgiliau tîm gan gynnwys cynlluniau ar gyfer gwella. Perfformiad effeithlon ac effeithiol o'ch rôl a'ch cyfrifoldebau eich hun gan gynnwys rheoli amser, ymddygiad, sgiliau personol a gweithio mewn tîm. Myfyrdod manwl a rhesymegol iawn ar feithrin a defnyddio sgiliau personol a sgiliau gweithio mewn tîm.
DD3 Deall y ffactorau sy'n gysylltiedig â Her Menter a Chyflogadwyedd	Dealltwriaeth gyfyngedig o'r ffactorau sy'n gysylltiedig â datblygu cynnig busnes. Arddangosfa Weledol gyda chyfyngiadau o ran strwythur a pherthnasedd. Sgiliau cyfathrebu cyfyngedig i'w gweld yn y Cyflwyniad gerbron Panel.	Dealltwriaeth sylfaenol o'r ffactorau sy'n gysylltiedig â datblygu cynnig busnes. Arddangosfa Weledol sy'n glir ac wedi'i datblygu'n briodol. Sgiliau cyfathrebu sylfaenol i'w gweld yn y Cyflwyniad gerbron Panel.	Dealltwriaeth fanwl o'r ffactorau sy'n gysylltiedig â datblygu cynnig busnes. Arddangosfa Weledol wedi'i strwythuro a'i datblygu'n effeithiol. Sgiliau cyfathrebu effeithiol i'w gweld yn y Cyflwyniad gerbron Panel.	Dealltwriaeth fanwl ac effeithiol o'r ffactorau sy'n gysylltiedig â datblygu cynnig busnes. Arddangosfa Weledol wedi'i strwythuro'n dda a'i datblygu'n greadigol. Sgiliau cyfathrebu hynod effeithiol i'w gweld yn y Cyflwyniad gerbron Panel.

3.4 Her Dinasyddiaeth Fyd-eang

Diben

Diben yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang yw meithrin sgiliau dysgwyr, wrth ddarparu cyfleoedd iddyn nhw ddeall materion byd-eang ac ymateb yn briodol iddyn nhw. Fel rhan o'r Her Dinasyddiaeth Fyd-eang, bydd y dysgwyr yn meithrin sgiliau penodol ym maes **Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau a Chreadigedd ac Arloesi** ac yn eu defnyddio mewn modd priodol.

Cyflwyniad

Beth yw dinesydd byd-eang?

Pa sgiliau y bydd y dysgwyr yn gallu eu meithrin a'u defnyddio?

Beth yn union yw'r Her hon?

Mae dinasyddion byd-eang yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau fel dinasyddion Cymru a'r byd ehangach. Mae ganddynt ddiddordeb mewn materion byd-eang, brwdfrydedd amdanynt a dealltwriaeth ohonynt. Mae dinesydd byd-eang yn parchu ac yn gwerthfawrogi cydraddoldeb, amrywiaeth, goddefgarwch a chynaliadwyedd.

Gall yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang gyfrannu at feithrin y sgiliau, y priodoleddau a'r wybodaeth a fydd yn creu dinasyddion byd-eang, gyda dealltwriaeth o'r byd ac o'r rhan y mae Cymru yn ei chwarae o fewn y byd hwnnw. Ynghyd â'r wybodaeth a'r gwerthoedd a gânt drwy ddysgu am faterion byd-eang, bydd y dysgwyr yn meithrin sgiliau a fydd yn rhoi'r gallu a'r hyder iddyn nhw fod yn rhagweithiol wrth wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn y byd. Drwy ymchwilio, dadlau a thrafod, bydd y dysgwyr yn ystyried amrywiaeth o ffeithiau, ffactorau, barn a safbwyntiau gwahanol am faterion byd-eang. Caiff y dysgwyr y cyfle i ddysgu am broblemau a materion y byd, i feddwl yn feirniadol amdanynt a sut y gellid eu datrys.

Bydd yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang yn rhoi'r cyfle i'r dysgwyr feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o fater byd-eang a ddewisir o blith un o'r pynciau canlynol:

- Amrywiaeth ddiwylliannol
- Masnach Deg
- Egni yn y dyfodol
- Anghydraddoldeb
- Byw mewn modd cynaliadwy
- Argyfyngau naturiol a dynol
- Maeth
- Tlodi

Gan ddefnyddio ffynonellau ac adnoddau priodol, bydd y dysgwyr yn ystyried effaith ffactorau perthnasol gan gynnwys ffactorau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol, amgylcheddol (PESTLE/DACTEG) mewn perthynas â'r materion byd-eang a ddewiswyd.

Mae'r Her Dinasyddiaeth Fyd-eang yn ei gwneud yn ofynnol i'r dysgwyr ymateb i fater byd-eang drwy godi ymwybyddiaeth o'r mater i gynulleidfya benodol mewn modd creadigol ac arloesol.

Canllawiau Cyflwyno

Ar y lefel hon, dylai dysgwyr dreulio tua **30 awr** ar yr Her gydag amser priodol yn cael ei dreulio'n meithrin y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth ategol berthnasol gan gynnwys ffactorau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol, amgylcheddol (PESTLE/DACTEG). Dyrennir o leiaf **11 awr** i gynhyrchu'r dystiolaeth sydd ei hangen i asesu'r Her. At ddiben yr Her hon, bydd ffocws penodol ar addysgu, dysgu ac asesu **Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau a Chreadigedd ac Arloesi**.

Er y caiff un o'r materion byd-eang ei ddewis fel ffocws ar gyfer yr Her a'r gwaith asesu, er mwyn paratoi, awgrymir y dylid ystyried a defnyddio nifer o'r materion i feithrin y sgiliau angenrheidiol. Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr drin a thrafod materion byd-eang ac i fanteisio ar gymorth sefydliad allanol perthnasol e.e. adnoddau, ymweliadau addysgol, siaradwyr gwadd.

Ar y lefel hon, rhaid i'r Her cael ei chwblhau fel **unigolyn**.

Mae Briffiau Her sydd wedi'u cymeradwyo i'w cael ar dudalen pwnc Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen ar wefan CBAC

Enghreifftiau o ddulliau codi ymwybyddiaeth

Efallai y bydd y dysgwyr am ddefnyddio un o'r dulliau canlynol neu ddewis dull arall i godi ymwybyddiaeth o'r mater byd-eang maent yn ei ddewis.

- Ymgyrch
- Poster
- Cerdd neu gân
- Cyflwyniad
- Taflen
- Blog
- Gwefan

Tystiolaeth i'w Hasesu

Rhaid i bob dysgwr ddarparu dystiolaeth ategol o **Safbwynt Personol** ysgrifenedig, **Pecyn Codi Ymwybyddiaeth** ac **Adolygiad Personol**.

Rhaid i'r dystiolaeth ategol ar gyfer y **Safbwynt Personol** gynnwys y canlynol:

- barn a safbwyntiau gwahanol am fater byd-eang
- ffactorau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol, amgylcheddol (PESTLE/DACTEG) perthnasol
- eich safbwyntiau eich hun ar y mater byd-eang

Gallai'r dystiolaeth ategol ar gyfer y **Pecyn Codi Ymwybyddiaeth** gynnwys y canlynol:

- meddwl am syniadau ar gyfer codi ymwybyddiaeth a'u gwerthuso;
- dethol un syniad;
- datblygu'r syniad hwnnw a'i roi ar waith gan gynnwys technegau addas ar gyfer datrys problemau a gwneud penderfyniadau;
- deunyddiau ac adnoddau i'w defnyddio yn y gweithgaredd codi ymwybyddiaeth.

Rhaid i'r **Adolygiad Personol** gynnwys:

- datblygu a defnyddio Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau;
- datblygu a defnyddio Creadigedd ac Arloesi.

Engbreiffitiau o'r hyn i'w gynnwys mewn rhaglen addysgu a dysgu priodol

Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau

- Nodi, ystyried a defnyddio amrywiaeth o ffeithiau, barnau a safbwyntiau
- Mynegi eich safbwyntiau eich hun ac ystyried safbwyntiau pobl eraill
- Nodi, datblygu a dadansoddi dadleuon
- Nodi gwybodaeth a ffactorau allweddol – achosion, newidiadau, canlyniadau, nodweddion tebyg a gwahaniaethau
- Llunio barn a dod i gasgliadau
- Ystyried hygredded ffynonellau – dibynadwyedd, dilysrwydd
- Defnyddio technegau datrys problemau a gwneud penderfyniadau
- Nodi problemau ac archwilio penderfyniadau ac atebion posibl
- Rhoi penderfyniadau ac atebion ar waith
- Nodi, dadansoddi a defnyddio gwybodaeth a data i ddatrys problemau
- Myfyrio ar brosesau datrys problemau a gwneud penderfyniadau a rhoi atebion ar waith

Creadigedd ac Arloesi

- Meddwl am syniadau newydd
- Perchenogaeth dros eich syniadau eich hun a pharch at syniadau pobl eraill
- Nodi a herio rhagdybiaethau
- Defnyddio dychymyg a blaengaredd
- Ystyried opsiynau - manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd
- Asesu a gwerthuso syniadau - defnyddio dadansoddiad SWOT i ddewis y syniad mwyaf ymarferol
- Cyfuno a datblygu syniadau
- Nodi, dewis a defnyddio atebion er mwyn bodloni gofynion newydd
- Rhoi atebion ar waith
- Myfyrio ar brosesau a deilliannau

Yng nghyd-destun yr Her:

- Y cysyniad o ddinasyddiaeth fyd-eang
- Materion byd-eang – Amrywiaeth ddiwylliannol, Masnach Deg, Egni yn y dyfodol, Anghydraddoldeb, Byw mewn modd cynaliadwy, Argyfyngau naturiol a dynol, Maeth, Tlodi
- Ffactorau perthnasol – gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol (PESTLE/DACTEG)
- Trin a thrafod – llunio cwestiynau ac ymateb i gwestiynau
- Dulliau ar gyfer codi ymwybyddiaeth
- Defnyddio technegau digidol

Asesu'r Her Dinasyddiaeth Fyd-eang

Lle nad oes tystiolaeth neu'r gwaith ddim yn haeddu credyd – 0 marc

Deilliannau Dysgu	Bandiau Perfformiad			
	Band 1 1 - 3	Band 2 4 - 6	Band 3 7 - 9	Band 4 10 - 12
DD1 Gallu defnyddio Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau	Safbwynt Personol cyfyngedig gan gynnwys eich barn, eich safbwyntiau a'ch dadleuon eich hun a rhai amgen. Ystyriaeth gyfyngedig o hygyrdd ffynonellau. Technegau cyfyngedig o ran datrys problemau a gwneud penderfyniadau. Myfyrdod cyfyngedig ar y broses meddwl yn feirniadol a datrys problemau.	Safbwynt Personol sylfaenol gan gynnwys eich barn, eich safbwyntiau a'ch dadleuon eich hun a rhai amgen. Ystyriaeth sylfaenol o hygyrdd ffynonellau. Technegau sylfaenol o ran datrys problemau agwneud penderfyniadau. Myfyrdod sylfaenol ar y broses meddwl yn feirniadol a datrys problemau.	Safbwynt Personol manwl gan gynnwys eich barn, eich safbwyntiau a'ch dadleuon eich hun a rhai amgen. Ystyriaeth fanwl o hygyrdd ffynonellau. Technegau effeithiol o ran datrys problemau a gwneud penderfyniadau. Myfyrdod manwl ar y broses meddwl yn feirniadol a datrys problemau.	Safbwynt Personol manwl, clir ac effeithiol gan gynnwys eich barn, eich safbwyntiau a'ch dadleuon eich hun a rhai amgen. Ystyriaeth fanwl ac effeithiol o hygyrdd ffynonellau. Technegau effeithlon ac effeithiol o ran datrys problemau a gwneud penderfyniadau. Myfyrdod manwl a rhesymegol ar y broses meddwl yn feirniadol a datrys problemau.
DD2 Gallu defnyddio Creadigedd ac Arloesi	Meddylwyd am syniadau cyfyngedig o ran codi ymwybyddiaeth gan gynnwys ystyried cryfderau a gwendidau. Dewiswyd, datblygwyd a gweithredwyd syniad addas. Myfyrdod cyfyngedig ar y broses sy'n gysylltiedig â datblygu cysyniad newydd.	Meddylwyd am syniadau sylfaenol o ran codi ymwybyddiaeth gan gynnwys ystyried cryfderau a gwendidau. Dewiswyd, datblygwyd a gweithredwyd syniad realistig. Myfyrdod sylfaenol ar y broses sy'n gysylltiedig â datblygu cysyniad newydd.	Meddylwyd am syniadau priodol o ran codi ymwybyddiaeth gan gynnwys ystyried cryfderau a gwendidau. Dewiswyd, datblygwyd a gweithredwyd syniad priodol a dichonadwy. Myfyrdod manwl ar y broses sy'n gysylltiedig â datblygu cysyniad newydd.	Meddylwyd am syniadau priodol a realistig o ran codi ymwybyddiaeth gan gynnwys ystyried cryfderau a gwendidau. Dewiswyd, datblygwyd a gweithredwyd syniad dichonadwy, realistig ac effeithiol. Gwerthusiad manwl a chytbwys o'r broses sy'n gysylltiedig â datblygu cysyniad newydd.
DD3 Deall y materion sy'n gysylltiedig â Her Dinasyddiaeth Fyd-eang	Dealltwriaeth gyfyngedig o'r mater byd-eang. Ystyriaeth gyfyngedig o ffactorau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol. Y deilliannau codi ymwybyddiaeth a luniwyd o ansawdd ac addasrwydd cyfyngedig.	Dealltwriaeth sylfaenol o'r mater byd-eang. Ystyriaeth sylfaenol o ffactorau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol. Y deilliannau codi ymwybyddiaeth a luniwyd o ansawdd ac addasrwydd digonol.	Dealltwriaeth fanwl o'r mater byd-eang. Ystyriaeth fanwl o ffactorau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol perthnasol. Y deilliannau codi ymwybyddiaeth a gynhyrchwyd yn briodol ac o ansawdd da.	Dealltwriaeth fanwl ac effeithiol o'r mater byd-eang. Ystyriaeth fanwl ac effeithiol o ffactorau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol perthnasol. Y deilliannau codi ymwybyddiaeth a gynhyrchwyd yn briodol, yn effeithiol ac o ansawdd da.

3.4 Her y Gymuned

Diben

Diben Her y Gymuned yw meithrin sgiliau'r dysgwyr, wrth annog y dysgwyr i nodi, datblygu a chymryd rhan mewn cyfleoedd a fydd o fudd i'r gymuned leol. Fel rhan o Her y Gymuned, bydd y dysgwyr yn meithrin sgiliau penodol ym maes **Cynllunio a Threfnu** ac **Effeithiolrwydd Personol** ac yn eu defnyddio mewn modd priodol.

Cyflwyniad

Beth yw'r gymuned leol?

Pa sgiliau y bydd y dysgwyr yn gallu eu meithrin a'u defnyddio?

Beth yn union yw'r Her hon?

Yn y byd sydd ohoni, mae angen i'r dysgwyr fod yn ymwybodol o'r heriau a'r cyfleoedd y byddant o bosibl yn dod ar eu traws ar lefel bersonol yn eu cymuned leol: yr ysgol, yr ardal leol, y pentref, tref neu ddinas agosaf. Bydd y dysgwyr yn canolbwyntio ar bryderon ac anghenion go iawn drwy weithgareddau sy'n anelu at wneud gwahaniaeth yn y gymuned. Dylai Her y Gymuned gynnig profiadau sy'n helpu pobl ifanc i ddeall ystyr bod yn ddinesydd gweithgar. Dylai'r Her eu galluogi i ddatblygu fel aelodau effeithiol a chyfrifol o'u cymuned leol.

Wrth gwblhau Her y Gymuned, bydd y dysgwyr yn gallu cydnabod y cyfraniadau y gallant eu gwneud tuag at wella'r gymuned y maent yn byw ynddi a'r buddiannau dilynol iddyn nhw eu hunain, i eraill ac i'r amgylchedd. Lle y bo'n briodol, bydd y dysgwyr yn gallu dangos annibyniaeth, cyfrifoldeb a gallu i weithio'n dda gydag eraill. Caiff y dysgwyr gyfle i feithrin dealltwriaeth o sut y gall ymgymryd â gweithgaredd cymunedol fod o fudd iddyn nhw eu hunain. Bydd y gweithgaredd yn helpu i hyrwyddo ymdeimlad o hunanwerth, hunan-barch a hunanhyder, ynghyd â meithrin sgiliau unigol a/neu sgiliau gweithio mewn tîm

Bydd Her y Gymuned yn rhoi'r cyfle i'r dysgwyr ddewis gweithgaredd o blith un o'r themâu canlynol yn ymwneud â'r gymuned:

- Cymdeithasol/Lles
- Gwella'r Gymdogaeth
- Hyfforddi

Bydd y dysgwyr yn cynllunio ac yn trefnu'r gweithgaredd naill ai fel unigolyn neu mewn tîm (yn cynnwys rhwng 3 a 6 o aelodau). Wedyn, **rhaid** treulio 10 awr yn ymgymryd â'r gweithgaredd yn uniongyrchol gyda'r gymuned leol neu yn y gymuned leol. Ar ôl cwblhau'r Her rhaid i'r dysgwr fyfrio ar ei effeithiolrwydd personol.

Canllawiau cyflwyno

Ar y lefel hon, dylai'r dysgwyr dreulio tua **30 awr** ar yr Her gydag amser priodol yn cael ei dreulio'n meithrin y wybodaeth a'r sgiliau ategol perthnasol. Rhaid treulio isafswm o **15 awr** ar yr Her hon, gyda **10 o'r oriau** wedi'u treulio ar yr agwedd 'gwneud' o'r Her drwy weithio gyda'r gymuned neu yn y gymuned. Dylid treulio amser priodol yn meithrin y sgiliau a'r wybodaeth ategol berthnasol, yn ogystal ag amser i gynllunio'r gweithgaredd a myfrio arno. At ddiben yr Her hon, bydd ffocws penodol ar addysgu, dysgu ac asesu **Cynllunio a Threfnu** ac **Effeithiolrwydd Personol**.

Ar y lefel hon, efallai y byddai'n ddoeth ac yn fwy ymarferol i'r dysgwyr weithio mewn timau (yn cynnwys rhwng 3 a 6 aelod) er y bydd rhai dysgwyr o bosibl yn awyddus i gwblhau'r Her fel unigolyn.

Mae Briffiau Her sydd wedi'u cymeradwyo yn y Gronfa Heriau ar dudalen we Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen.

Diffiniad o Gymuned Leol

Gellir diffinio cymuned leol fel: yr ysgol, yr ardal leol, y pentref, tref neu ddinas agosaf.

Engbreiffiau o gyfleoedd

Cyfleoedd Cymdeithasol/Lles:

- cynllun cyfeillio yn rhoi cyngor a chymorth i ddisgyblion iau;
- gwirfoddoli gyda sefydliad plant/ieuenctid e.e. yr Urdd, clwb ieuenctid.

Cyfleoedd Gwella'r Gymdogaeth:

- gwneud ardal yn fwy diogel neu'n fwy pleserus i'r defnyddwyr;
- helpu i adfer ardal o harddwch naturiol.

Cyfleoedd Hyfforddi:

- hyfforddi chwaraeon, y celfyddydau perfformio, iaith;
- TG i bobl hŷn.

Tystiolaeth i'w Hasesu

Rhaid i bob dysgwr ddarparu **Cofnod Digidol Personol**.

Rhaid i'r dystiolaeth ategol yn y Cofnod Digidol Personol gynnwys **Archwiliad Sgiliau, Cynllun, a Myfyrdod Personol a Datganiad Cadarnhad**.

Archwiliad Sgiliau

Diben yr Archwiliad Sgiliau yw helpu dysgwyr unigol i nodi, cynllunio, meithrin a gwella'r sgiliau personol sydd eu hangen i gyflawni Her y Gymuned yn llwyddiannus

Rhaid i'r Archwiliad Sgiliau gynnwys dystiolaeth o'r canlynol:

- nodi sgiliau personol a/neu sgiliau gweithio mewn tîm cyfredol sy'n berthnasol i'r Her;
- nodi unrhyw sgiliau personol a/neu sgiliau gweithio mewn tîm ychwanegol y mae'n debygol y bydd eu hangen;
- cynllunio ar gyfer meithrin a gwella sgiliau perthnasol.

Cynllunio

Rhaid i'r Cynllun gynnwys dystiolaeth o'r canlynol:

- Nodau ac amcanion
- Targedau
- Amserlenni
- Adnoddau
- Cyfrifoldebau unigolion a/neu'r tîm
- Cyfleoedd a risgiau

Datganiad Cadarnhau

Rhaid i berson cyfrifol gwblhau Datganiad Cadarnhad Her y Gymuned CBAC gan gadarnhau bod y dysgwr wedi cwblhau 10 awr o gyfranogiad gweithgar a phwrpasol.

Myfyrdod Personol

Rhaid i'r Myfyrdod Personol, gan gynnwys defnyddio'r adborth a gafwyd, ymdrin â'r canlynol:

- rôl/cyfraniad personol wrth gynnal a chyflawni'r her;
- dadansoddiad o feithrin a defnyddio sgiliau personol a sgiliau gweithio mewn tîm.

Enghreifftiau o'r hyn i'w gynnwys mewn rhaglen addysgu a dysgu priodol

Cynllunio a Threfnu

- Datblygu nodau ac amcanion
- Llunio cynlluniau gweithredu – gosod amserlenni, cerrig milltir a therfynau amser, nodi is-dasgau a gweithgareddau, gosod targedau, nodi adnoddau, nodi risgiau, defnyddio dulliau cynllunio
- Dewis a threfnu gwybodaeth, adnoddau a deunyddiau
- Rheoli cynllun gweithredu – monitro, addasu i newid, ymateb i risgiau ac adolygu'r broses gynllunio
- Dangos cyfrifoldeb a dibynadwyedd

Effeithiolrwydd Personol

Hunanasesu

- Ymrwymiad i ddysgu a hunan-wella
- Asesu sgiliau personol a rhinweddau, cryfderau a gwendidau
- Datblygu cynllun dysgu unigol gan ddefnyddio targedau SMART
- Cofnodi ac adolygu cyflawniadau yn erbyn targedau

Hunan reoli

- Rheoli amser
- Rheoli adnoddau
- Gosod blaenoriaethau a nodau personol a blaenoriaethau a nodau tîm
- Gofyn am gyngor neu help a gweithredu'n unol â hynny
- Myfyrio ar berfformiad personol, defnyddio adnoddau hunanwerthuso

Cydberthnasau gwaith

- Adeiladu timau – deall rolau a chyfrifoldebau, cydberthnasau gwaith cadarnhaol
- Defnyddio ymddygiad priodol – cydweithio, cyfaddawdu, annog, parchu
- Cyflwyno eich safbwyntiau eich hun, gwerthfawrogi barn a safbwyntiau eraill ac ymateb yn briodol iddynt

Yng nghyd-destun yr Her:

- Manteision bwrw ati i helpu yn y gymuned leol
- Nodi anghenion yn y gymuned leol
- Dangos empathi â phobl o wahanol oedrannau, cefndiroedd a sefyllfaoedd
- Meithrin gwybodaeth ategol
- Cwblhau hyfforddiant perthnasol
- Meithrin sgiliau a thechnegau ymarferol perthnasol
- Meithrin sgiliau rhyngpersonol
- Gweithdrefnau iechyd a diogelwch ac asesiad risg lle mae'r rhain yn berthnasol ac yn briodol

Asesu Her y Gymuned

Lle nad oes tystiolaeth neu'r gwaith ddim yn haeddu credyd – 0 marc

Deilliannau Dysgu	Bandiau Perfformiad			
	Band 1 1 – 3 marc	Band 2 4 – 6 marc	Band 3 7 – 9 marc	Band 4 10 – 12 marc
DD1 Gallu defnyddio Cynllunio a Threfnu	Cynllun cyfyngedig ar gyfer gweithgaredd cymunedol gan gynnwys ystyriaeth o nodau, amcanion, amserlenni, gweithgareddau, adnoddau, dyrannu cyfrifoldebau, targedau a risgiau. Cafodd y cynllun ei roi ar waith yn rhannol gyda thystiolaeth gyfyngedig o fonitro a datblygiad addas. Myfyrdod cyfyngedig ar gryfderau a gwendidau'r broses gynllunio.	Cynllun sylfaenol ar gyfer gweithgaredd cymunedol gan gynnwys nodau, amcanion, amserlenni, gweithgareddau, adnoddau, dyrannu cyfrifoldebau, targedau a risgiau perthnasol. Cafodd y cynllun ei roi ar waith yn llawn gyda thystiolaeth gyfyngedig o fonitro a datblygiad addas. Myfyrdod sylfaenol ar gryfderau a gwendidau'r broses gynllunio.	Cynllun manwl ar gyfer gweithgaredd cymunedol gan gynnwys nodau, amcanion, amserlenni, gweithgareddau, adnoddau, dyrannu cyfrifoldebau, targedau a risgiau priodol a realistig. Cafodd y cynllun ei roi ar waith yn llawn, gyda thystiolaeth briodol o fonitro a datblygiad. Myfyrdod manwl ar gryfderau a gwendidau'r broses gynllunio.	Cynllun manwl ac effeithiol ar gyfer gweithgaredd cymunedol gan gynnwys nodau, amcanion, amserlenni, gweithgareddau, adnoddau, dyrannu cyfrifoldebau, targedau a risgiau priodol a realistig. Cafodd y cynllun ei roi ar waith a'i reoli'n llawn, yn effeithiol ac yn llwyddiannus. Myfyrdod manwl, clir ac effeithiol ar gryfderau a gwendidau'r broses gynllunio.
DD2 Deall Effeithiolrwydd Personol	Archwiliad cyfyngedig o sgiliau personol a/neu sgiliau tîm gan gynnwys cynlluniau ar gyfer gwella. Perfformiad sylfaenol o'ch rôl a'ch cyfrifoldebau eich hun gan gynnwys rheoli amser, ymddygiad, sgiliau personol a gweithio mewn tîm. Myfyrdod cyfyngedig ar feithrin a defnyddio sgiliau personol a sgiliau gweithio mewn tîm.	Archwiliad sylfaenol o sgiliau personol a/neu sgiliau tîm gan gynnwys cynlluniau ar gyfer gwella. Perfformiad digonol o'ch rôl a'ch cyfrifoldebau eich hun gan gynnwys rheoli amser, ymddygiad, sgiliau personol a gweithio mewn tîm. Myfyrdod sylfaenol ar feithrin a defnyddio sgiliau personol a sgiliau gweithio mewn tîm.	Archwiliad manwl o sgiliau personol a/neu sgiliau tîm gan gynnwys cynlluniau ar gyfer gwella. Perfformiad effeithiol o'ch rôl a'ch cyfrifoldebau eich hun gan gynnwys rheoli amser, ymddygiad, sgiliau personol a gweithio mewn tîm. Myfyrdod manwl a rhesymegol ar feithrin a defnyddio sgiliau personol a sgiliau gweithio mewn tîm.	Archwiliad manwl ac effeithiol o sgiliau personol a/neu sgiliau tîm gan gynnwys cynlluniau ar gyfer gwella. Perfformiad effeithlon ac effeithiol o'ch rôl a'ch cyfrifoldebau eich hun gan gynnwys rheoli amser, ymddygiad, sgiliau personol a gweithio mewn tîm. Myfyrdod manwl a rhesymegol iawn ar feithrin a defnyddio sgiliau personol a sgiliau gweithio mewn tîm.
DD3 Gallu cymryd rhan yn Her y Gymuned	Ystyriaeth gyfyngedig o ddiben a manteision y gweithgaredd i'r gymuned. Yn cymryd rhan yn y gweithgaredd mewn ffordd gadarnhaol gyda chymorth ac anogaeth. Cofnod Digidol Personol cyfyngedig gan gynnwys trefnu, storio, rheoli, rhannu a diogelu gwybodaeth.	Ystyriaeth sylfaenol o ddiben a manteision y gweithgaredd i'r gymuned. Yn cymryd rhan yn y gweithgaredd mewn ffordd gadarnhaol. Cofnod Digidol Personol sylfaenol gan gynnwys trefnu, storio, rheoli, rhannu a diogelu gwybodaeth.	Ystyriaeth fanwl o ddiben a manteision y gweithgaredd i'r gymuned. Yn cymryd rhan yn y gweithgaredd mewn ffordd gadarnhaol a brwdfrydig. Cofnod Digidol Personol manwl gan gynnwys trefnu, storio, rheoli, rhannu a diogelu gwybodaeth.	Ystyriaeth fanwl ac effeithiol o ddiben a manteision y gweithgaredd i'r gymuned. Yn cymryd rhan yn y gweithgaredd mewn ffordd gadarnhaol, frwdfrydig ac effeithiol. Cofnod Digidol Personol manwl, strwythuredig ac effeithiol gan gynnwys trefnu, storio, rheoli, rhannu a diogelu gwybodaeth.

4 HERIAU

4.1 Meithrin Sgiliau

Rhaid i'r broses o feithrin sgiliau dysgwyr fod yn ganolog wrth gynllunio, cyflwyno a chwblhau pob Her. Dylid annog a galluogi dysgwyr, trwy'r Heriau a'r Project Unigol, i feithrin pob un o'r saith sgil hanfodol a chyflogadwyedd, gyda phwyslais penodol ar y rheini a nodwyd fel y sgiliau i dalu sylw iddyn nhw wrth asesu.

Mae gofyn i ganolfannau gadw **Ffeil Meithrin Sgiliau**, sy'n dangos tystiolaeth o gyflwyno a thystiolaeth o brofiadau addysgu a dysgu'r dysgwyr. Mae'r Ffeil Meithrin Sgiliau'n gydran allweddol o brosesau Sicrhau Ansawdd CBAC ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau.

Dylai'r dystiolaeth yn y **Ffeil Meithrin Sgiliau** gynnwys:

- amlinelliad manwl o amserlen Tystysgrif Her Sgiliau'r ganolfan i bob carfan/blwyddyn academiaidd, gan gynnwys y pedair cydran;
- cynllun gwaith yn dangos sut caiff pob un o'r saith sgil hanfodol a chyflogadwyedd eu meithrin yn barod at yr Heriau a'r Project Unigol ar gyfer pob grŵp/carfan arwahanol o ddysgwyr;
- darparu enghreifftiau'n dangos yr amrywiaeth o brofiadau dysgu ac addysgu wedi'u hategu gan enghreifftiau o waith dysgwyr lle bo'n briodol;
- amlinelliad o'r Briffiau Heriau a ddewiswyd i'w hasesu.

4.2 Cronfa Heriau

Rhaid i CBAC **gymeradwyo** pob Briff Her. Bydd CBAC yn darparu [Cronfa Heriau](#) gan gynnwys Briffiau Her wedi'u cymeradwyo ar gyfer pob un o'r Heriau ar y lefel hon. At ddibenion asesu gall canolfannau a dysgwyr ddethol unrhyw Friff Her wedi'i gymeradwyo o'r Gronfa Heriau. Mae'r tasgau sy'n gysylltiedig â'r Heriau ar gael drwy safle diogel: <https://www.wjecservices.co.uk/Welsh/login.asp>

Bydd CBAC yn diweddarau'r Gronfa Heriau wrth i Friffiau Heriau newydd gael eu cymeradwyo. CBAC fydd yn penderfynu a oes angen **adnewyddu**, **diwygio** neu **ddileu** Briffiau Heriau o'r Gronfa Heriau e.e. i fodloni amgylchiadau sy'n newydd neu'n newid. Ni fydd unrhyw Friffiau Heriau yn cael eu dileu yn ystod blwyddyn academiaidd.

4.3 Briffiau'r Heriau

Mae strwythur Briffiau'r Heriau fel a ganlyn:

Teitl Briff yr Her

Mae'r teitl Briff yr Her yn crynhoi cyd-destun yr her mewn ffordd gryno.

Diben

Mae'r diben yn darparu crynodeb clir o'r gydran.

Cyflwyniad

Yn gosod yr Her yn ei chyd-destun ac yn egluro i'r dysgwyr yn union beth yw'r Her.

Tasgau

Mae'r tasgau'n darparu'r gweithgareddau y mae'n rhaid eu cwblhau er mwyn bodloni gofynion yr Her.

Crynodeb

Mae'r adran hon yn crynhoi'r asesiad ac yn rhoi manylion o'r dystiolaeth sydd ei hangen i gyflawni'r deilliannau dysgu. Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys manylion am y rheolaethau sy'n berthnasol ar gyfer yr Her – amser, adnoddau, goruchwyliaeth, cydweithio ac adborth.

Newidiadau a dderbynnir i'r Briff Her

Bydd yr adran a geir o fewn Briffiau Heriau Cyffredinol yn nodi ym mha ffyrdd y caniateir i sefydliadau a chanolfannau wneud addasiadau. Rhaid i CBAC gymeradwyo pob newid i Friffiau Her.

Datganiad Cadarnhau

Caiff hyn ei gynnwys lle bo angen a rhaid i berson cyfrifol ei gwblhau gan gadarnhau bod y dysgwr wedi bodloni'r gofynion.

Grid Asesu

Mae deilliannau dysgu yn datgan beth y dylai'r dysgwr ei wybod, ei ddeall neu allu ei wneud o ganlyniad i gwblhau'r dysgu yn y gydran. Mae'r bandiau perfformiad yn dynodi'r safon y mae dysgwr wedi'i dangos ar gyfer deiliant dysgu'r gydran honno. Defnyddir y sgôr ar gyfer y bandiau perfformiad i bennu'r radd gyfunol ar gyfer y gydran.

Ffurflen Asesu Her yr Ymgeisydd

Bydd yr aseswr yn defnyddio'r ffurflen hon i gofnodi'r marciau a ddyrannwyd ar gyfer pob deiliant dysgu a chyfanswm y marciau ar gyfer yr ymgeisydd. Rhaid i'r ymgeisydd a'r aseswr lofnodi'r ffurflen er mwyn cadarnhau dilysrwydd y dystiolaeth.

4.4 Dylunio a Chymeradwyo Briffiau'r Heriau

Rhaid i'r Briffiau Heriau anelu at roi profiadau a chyfleoedd i ddysgwyr feithrin sgiliau yng nghydestun dibenion bywyd go iawn a chyd-destunau bywyd go iawn.

Rôl Sefydliadau Allanol

Mae'n hanfodol, lle bynnag a phryd bynnag y bo hynny'n bosibl, i arbenigedd, cefnogaeth a chynghor gan sefydliadau allanol perthnasol a phriodol fod wrth galon y broses o greu a chyflwyno'r Briffiau Heriau. Mae'n debygol y bydd yr amrywiaeth o bartneriaid allanol sy'n barod ac yn gallu cymryd rhan yn cynnwys cwmnïau mawr, cyflogwyr (busnesau bach a mawr), mudiadau elusennol, sefydliadau preifat a/neu gyhoeddus addas.

Rhagwelir mai rôl sefydliadau allanol fydd:

- ymgynghori ynghylch gosod Briffiau Heriau ac ymwneud â'r broses honno;
- darparu amrywiaeth o gefnogaeth ac adnoddau i'r canolfannau;
- creu cysylltiadau â chanolfannau unigol, CBAC, Consortia Rhanbarthol neu rwydweithiau priodol eraill a'u cefnogi.

Rôl y Canolfannau

Gall canolfannau addasu Briffiau Heriau generig a'u gosod mewn cyd-destun i'w defnyddio gyda'u dysgwyr eu hunain. O wneud hynny, mae angen cymeradwyaeth gan CBAC, a gallant gynnwys er enghraifft Briffiau Heriau sy'n deillio o:

- rhaglenni astudio cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol;
- leithoedd Tramor Modern, Cymraeg Ail Iaith neu ieithoedd eraill;
- fframweithiau cwricwlwm statudol megis Addysg Grefyddol.

Mae cefnogaeth ac arweiniad ar gael gan CBAC i ganolfannau a sefydliadau mewn perthynas â chymryd rhan yn holl agweddau'r Heriau. Mae gwefan CBAC yn rhoi manylion cyswllt aelodau priodol o staff CBAC.

4.5 Rheoli'r Heriau gan y Canolfannau

Dylai canolfannau roi ystyriaeth i'r pwyntiau canlynol wrth gwblhau'r Heriau a ddewisir a'r Project Unigol:

- Rhaid i'r Heriau a'r Project Unigol ganolbwyntio ar **feithrin sgiliau**;
- mae asesiad Briffiau'r Heriau'n dangos i ba raddau y llwyddodd y dysgwyr i **gymhwyso'r sgiliau hyn**;
- wrth gwblhau'r Heriau dewisol, rhaid i'r dysgwr gwblhau'r Her Dinasyddiaeth Fyd-eang fel unigolyn, a'r Her Menter a Chyflogadwyedd fel tîm. Gellir cwblhau Her y Gymuned naill ai fel unigolyn neu fel tîm;
- gellir defnyddio'r un Briff Her gyda phob dysgwr, neu rai dysgwyr yn unig, yn y garfan;
- mae'n arfer da wrth ddefnyddio Briffiau Heriau mewn canolfan i adnewyddu'r briffiau hynny'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr athrawon a'r dysgwyr yn cael eu cymell ac yn arloesi;
- during the completion of tasks used for assessment **no help** must be provided and **feedback** is only allowed where and when specified in the Controls Summary table of the Challenge Brief and/or Teacher Handbook 2 – Managing Assessment.
- **ni ddylid rhoi unrhyw help** wrth gwblhau'r tasgau i'w hasesu a dim ond lle nodwyd yn nhabl Crynhoi Rheolaethau yr Her/ a neu [Llawlyfr Athrawon 2 – Rheoli Asesu](#) y gellid rhoi **adborth**.
- gall dysgwr sy'n **ailsefyll** Her ailddefnyddio Briff yr Her wreiddiol neu ddewis un gwahanol.

5 ASESU

5.1 Cynllun Asesu

Mae disgwyl i ddysgwyr gynhyrchu tystiolaeth sy'n dangos eu bod wedi meithrin sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol. Diben asesu yw sicrhau bod yr hyn y mae'r dysgwyr wedi'i ddysgu yn rhoi'r cyfle iddyn nhw gyflawni'r deilliannau dysgu o fewn y cydrannau. Bydd CBAC yn darparu **deunydd cefnogi ac arweiniad** pellach ynghylch asesu pob cydran yn y [Llyfryn Athrawon 2 – Rheoli Asesu](#).

Asesu cydrannau'r Dystysgrif Her Sgiliau

Caiff cydrannau'r Dystysgrif Her Sgiliau eu hasesu'n fewnol a'u safoni'n allanol. Rhaid asesu tystiolaeth yn erbyn y deilliannau dysgu a'r datganiadau bandiau perfformiad a nodir ym manyleb pob cydran. Rhaid i dystiolaeth ysgrifenedig gael ei hanodi er mwyn dangos sut mae'n berthnasol i'r deilliannau dysgu a gofynion y bandiau perfformiad.

Lle yr arsylwir ar berfformiad, rhaid cwblhau 'Datganiad Cadarnhau' wedi'i lofnodi gan berson cyfrifol i gadarnhau dilysrwydd.

Dim ond aseswr dynodedig a ddylai ymgymryd â'r gwaith asesu. Dylai aseswr feddu ar arbenigedd priodol ar y lefel ar gyfer cydran benodol.

Bydd CBAC yn cymedroli ac yn graddio'r Project Unigol a'r Heriau a ddewisir ar wahân ac yn cyfuno'r canlyniadau er mwyn rhoi gradd gyffredinol ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau.

Dilysu

Rhaid i ganolfannau sicrhau y caiff yr Heriau eu cwblhau dan yr amodau dan reolaeth a ddynodir yn Nhasgau Briffiau'r Heriau. Gall aseswyr roi cyfarwyddyd ynglŷn â gofynion yr Her a'r tasgau cysylltiedig ac atgoffa'r dysgwyr o'r bandiau perfformiad a sut y gellir eu dehongli.

Rhaid i ganolfannau sicrhau dilysrwydd y dystiolaeth a gynhyrchir i'w hasesu'n grynodol. Rhaid i ddysgwyr lofnodi datganiad yn cadarnhau mai eu gwaith nhw eu hunain yw'r holl waith ac na chawsant unrhyw gymorth heblaw'r hyn a ganiateir. Rhaid i aseswyr lofnodi datganiad i gadarnhau mai gwaith y dysgwr ei hun yw'r gwaith a gyflwynwyd ac na weithredwyd yn annheg mewn unrhyw ffordd.

Cydweithio

Os gwneir gwaith tîm (diffinnir tîm fel un sydd â rhwng 3 a 6 aelod), rhaid ystyried yr egwyddorion canlynol:

- dylai pob aelod o'r tîm gael mynediad llawn i'r holl fandiau perfformiad ar gyfer yr holl ddeilliannau dysgu.
- **rhaid** i ddysgwyr ddarparu ymateb unigol fel rhan o ddeiliant unrhyw dasg.
- rhaid gallu priodoli'r dystiolaeth yn glir i bob aelod unigol o'r grŵp.
- rhaid i'r broses o asesu'r unigolyn fod yn seiliedig ar y cyfraniad unigol i'r dystiolaeth a gyflwynwyd.

5.2 Asesu tystiolaeth

Rhaid i bob canolfan benodi Cydlynnydd i ymgymryd â rôl aseswr arweiniol. Bydd angen nifer briodol o aseswyr i gynnal yr asesiad mewnol ar gyfer y Project Unigol a'r Heriau a ddewisir. Rhaid asesu tystiolaeth yn erbyn y bandiau perfformiad a roddir yn y fanyleb hon.

Mae'r aseswr yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:

- cynhelir yr asesiad o dan yr amodau dan reolaeth a nodir.
- maent yn deall gofynion y deilliannau dysgu a'r datganiadau bandiau perfformiad cyn dechrau'r asesiad dan reolaeth.
- mae'r dystiolaeth a gyflwynir i'w hasesu yn ddilys.
- mae'r penderfyniadau asesu yn cael eu cofnodi'n gywir.
- mae'r dystiolaeth yn cael ei hanodi'n briodol.
- dim ond yn erbyn y datganiadau bandiau perfformiad y caiff dyfarniadau eu gwneud.
- mae'r Datganiadau Cadarnhau yn cynnwys digon o fanylion i sicrhau bod modd cadarnhau penderfyniadau yn wrthrychol.

5.3 Safoni

Mae disgwyl i'r canolfannau safoni penderfyniadau asesu mewnol y Project Unigol a'r Heriau a ddewisir. O wneud hyn mae'r canolfannau'n dilyn proses sy'n sicrhau bod yr un safon yn cael ei defnyddio i farnu pob dysgwr ar draws aseswyr a grwpiau addysgu gwahanol o flwyddyn i flwyddyn. Bydd 'Canllawiau i'r Ganolfan' yn cael eu darparu gan CBAC yn rhoi arweiniad ar sefydlu dulliau safoni mewnol.

Bydd CBAC yn rhoi hyfforddiant i Gydlynwyr ac aseswyr. Bydd deunydd cymorth i aseswyr, gan gynnwys dogfennau enghreifftiol, ar gael ar wefan ddiogel Bagloriaeth Cymru.

Rôl y Cydlynnydd yw gwneud y canlynol:

- rhoi cymorth i'r aseswyr o ran dehongli'r meini prawf asesu.
- sicrhau bod gan bob aseswr ddogfennaeth briodol i ategu penderfyniadau asesu teg a dilys.
- sicrhau bod pob aseswr yn cwblhau'r ddogfennaeth asesu yn briodol.
- samplu dyfarniadau asesu ar adegau priodol er mwyn sicrhau bod pob aseswr yn y ganolfan yn cymhwyso'r meini prawf asesu yn gywir ac yn gyson.
- rhoi adborth i aseswyr.

6 GRADDIO

6.1 Dyfarnu graddau ar gyfer cydrannau'r Dystysgrif Her Sgiliau

Mae cyflawni cydrannau'n seiliedig ar allu dysgwr i fodloni'r deilliannau dysgu. Dyfernir gradd grynodol ar gyfer pob cydran.

- Llwyddiant Lefel 1;
- Llwyddiant Lefel 2;
- Teilyngdod Lefel 2;
- Rhagoriaeth Lefel 2.

Mae'r bandiau perfformiad yn galluogi'r dysgwyr i ddangos eu gallu i fodloni'r deilliant dysgu. Mae pedwar band perfformiad yn gysylltiedig â phob cydran, gydag amrediad o dri marc yn cael eu dyrannu i bob un. Dylid dyrannu 0 marciau lle nad oes tystiolaeth neu'r gwaith ddim yn haeddu credyd.

Bandiau Perfformiad	Band 1	Band 2	Band 3	Band 4
Marciau	1 - 3	4 - 6	7 – 9	10 - 12

Bydd aseswyr yn dyrannu sgôr ar gyfer pob deilliant dysgu, ac yn coladu'r marciau ar draws y gydran gyfan er mwyn darparu cyfanswm y sgôr. Caiff y radd grynodol ar gyfer y gydran ei chyfrifo o gyfanswm y sgôr.

Mae'r tabl canlynol yn nodi manylion am gyfanswm y marciau sydd ar gael ar gyfer pob un o'r cydrannau sy'n rhan o'r Dystysgrif Her Sgiliau. Rhaid gwblhau dwy allan o'r tair gydran Her.

Cydran	Cyfanswm y Sgôr
Project Unigol (Gorfodol)	0 - 96
Her Menter a Chyflogadwyedd	0 - 36
Her Dinasyddiaeth Fyd-eang	0 - 36
Her y Gymuned	0 - 36

Defnyddir Graddfa Marciau Unffurf (GMU) mewn manylebau unedol fel dyfais ar gyfer adrodd, cofnodi a chydgrynhoi canlyniadau asesu unedau ymgeiswyr. Defnyddir yr GMU fel y bydd gan ymgeiswyr sy'n cyflawni'r un safon yr un marc unffurf, waeth pryd y cymerwyd yr uned.

Mae marciau unffurf yn cyfateb i raddau uned fel a ganlyn:

Cydran	Uchafswm marciau crai	Uchafswm GMU	Lefel 2			Lefel 1
			Anrhydedd	Teilyngdod	Llwyddiant	Llwyddiant
Project Unigol (50%)	96	150	120	90	60	30
Her 1 (25%)	36	75	60	45	30	15
Her 2 (25%)	36	75	60	45	30	15

6.2 Dyfarnu gradd ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau

Er mwyn cyflawni'r Dystysgrif Her Sgiliau, rhaid i ddysgwyr gyflawni cydrannau y Project Unigol a'r Heriau a ddewisir.

Caiff y radd ar gyfer y cymhwyster ei chyfrifo drwy agregu'r sgorau ar gyfer y cydrannau wedi'u pwysoli fel y nodir isod:

Cydran	Pwysoli
Project Unigol	50%
Her 1	25%
Her 2	25%
Cyfanswm	100%

Gellir dyfarnu gradd Sylfaen neu Genedlaethol i'r cymhwyster.

Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol wedi'i **graddio A* - C**. Ar gyfer dyfarniad **Cenedlaethol**, rhaid i'r dysgwr:

- gael y marc GMU isaf ar gyfer gradd y cymhwyster, a
- llwyddo ym mhob un o'r cydrannau a ddewisir.

Rhoddir gradd **Llwyddiant Sylfaen neu Lwyddiant Sylfaen*** am y Dystysgrif Her Sgiliau **Sylfaen**. I ennill y dyfarniad Sylfaen, rhaid i'r dysgwr:

- gael y marc GMU isaf ar gyfer gradd y cymhwyster, a
- llwyddo ym mhob un o'r cydrannau a ddewisir.

Ffiniau Graddau	Cenedlaethol				Sylfaen		U
	A*	A	B	C	Llwyddiant*	Llwyddiant	
Cyfanswm GMU	270	240	180	120	90	60	0
%	90%	80%	60%	40%	30%	20%	0

7 DULLIAU COFRESTRU

7.1 Ymrestriadau

Rhaid i ddysgwyr fod wedi'u cofrestru ar gyfer Bagloriaeth Cymru erbyn Hydref 31ain o'u blwyddyn astudio gyntaf. O'r dyddiad ymrestru, gall dysgwyr ddechrau casglu tystiolaeth ar gyfer cwblhau Bagloriaeth Cymru.

7.2 Cofrestru am Gydrannau a Chymwysterau

Gellir cyflwyno cofrestriadau am yr Heriau a ddewisir naill ai ar gyfer cyfres mis Ionawr neu gyfres mis Mehefin yn ystod dwy flynedd y cwrs. Rhaid cyflwyno cofrestriadau ar gyfer y Project Unigol yn ystod ail flwyddyn y cwrs naill ai yn ystod cyfres mis Ionawr neu gyfres mis Mehefin.

Rhaid defnyddio cod cyfnewid er mwyn agregu sgorau a dyfarnu gradd gyffredinol am y Dystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen a Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen. Dim ond ar gyfer cyfres mis Mehefin y bydd yr opsiwn hwn ar gael pan fydd y dysgwr wedi cwblhau pob un o'r cydrannau ac y bydd wrthi'n cwblhau'r Cymwysterau Ategol.

7.3 Ail-sefyll cydrannau

Caiff dysgwyr **un** cyfle i ailsefyll pob cydran a gaiff ei hasesu h.y. yr Heriau a ddewisir a'r Project Unigol gyda'r uchaf o'r marciau yn cyfrif tuag at radd y cymhwyster. Os bydd ymgeiswyr yn dymuno cymryd unrhyw gydrannau am y trydydd tro, ni ellir defnyddio unrhyw ganlyniadau o gydrannau a gymerwyd yn flaenorol wrth gyfuno'r radd newydd. Felly, rhaid cymryd pob cydran yn y cymhwyster eto.

8 CYMEDROLI ALLANOL

Caiff cysondeb arferion a phenderfyniadau asesu ar draws canolfannau ei sicrhau drwy gwblhau proses o safoni allanol ar sampl o waith ar gyfer safoni sampl o waith ar gyfer pob cydran a gyflwynir yn allanol. Rhaid llwytho pob sampl i fyny i blatfform E-Gyflwyno CBAC - *Surpass*. Ceir gwybodaeth am blatfform *Surpass* a'r broses uwchlwytho ar [wefan CBAC](#).

Bydd maint y sampl yn seiliedig ar nifer yr ymgeiswyr a gofrestrwyd, a fydd yn rhoi isafswm maint sampl, ac yna ar nifer yr aseswyr gydag o leiaf dri ymgeisydd wedi'u dewis o bob asesydd. Bydd y sampl yn cwmpasu'r ystod o farciau a ddyfarnwyd, gan gynnwys marc uchaf ac isaf y ganolfan. Bydd samplau'n cael eu dewis a'u gweld yn awtomatig drwy'r System Mewnbynnu Marc Asesu Mewnol (IAMIS), a rhaid eu llwytho i fyny i gyrraedd y safonwr erbyn y dyddiad a bennir.

Bydd maint y sampl fel y nodir yn y tabl isod.

<i>Cyfanswm nifer yr ymgeiswyr ar gyfer pob cydran</i>	<i>Maint y sampl</i>
1 – 10	All
11 - 100	10
101 - 200	15
201 - 300	25
301+	25

Gall CBAC ofyn am sampl fwy neu am samplau pellach os bydd o'r farn bod angen hynny.

Dylai canolfannau gyflwyno sampl sy'n cynnwys:

- taflen asesu wedi'i chwblhau a'i llofnodi gan yr aseswr i gadarnhau'r asesiad ac wedi'i llofnodi gan y dysgwr i gadarnhau dilysrwydd y dystiolaeth a gyflwynir.
- yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan y dysgwyr wrth gwblhau'r asesiad, wedi'i hanodi'n briodol gan yr aseswr.

Bydd safonwyr yn adolygu'r holl dystiolaeth a gyflwynir er mwyn sicrhau bod safonau yn gyson. Caiff tystiolaeth ei barnu yn erbyn y grid asesu a'r canlynol:

- Anodi – rhaid i'r gwaith a gynhyrchwyd gan y dysgwyr gael ei hanodi'n briodol.
- Dilysu – rhaid i'r dysgwr a'r aseswr ddilysu'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y dysgwr.
- Safoni mewnol – rhaid darparu tystiolaeth o safoni/sicrhau ansawdd mewnol yn y ganolfan er mwyn sicrhau cysondeb ar draws aseswyr.

Amserlen

Rhaid cyflwyno samplau o waith i'w safoni'n allanol erbyn y dyddiad cau a bennir gan CBAC. Bydd angen i ganolfannau sicrhau bod dyddiadau cyflwyno mewnol yn caniatáu digon o amser cyn hyn er mwyn gallu dilysu, asesu a safoni gwaith.

Adborth

Canlyniad y gwaith safoni fydd naill ai derbyn neu newid penderfyniadau asesu canolfan. Rhoddir adborth drwy gyfrwng Adroddiad gan Safonwr y Ganolfan a fydd yn cynnwys canllawiau ar unrhyw feysydd i'w datblygu. Darperir adroddiad gan yr Uwch Safonwr ar ôl cwblhau pob cyfres gymedrol.

Rhaid i ganolfannau gadw tystiolaeth pob dysgwr am gyfnod o ddeufis ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau. Rhaid gallu darparu'r dystiolaeth i CBAC os gwneir cais amdani.

9 DYFARNU AC ADRODD YN ÔL

Cyhoeddir canlyniadau ar gyfer y Project Unigol a'r Heriau a ddewisir ym mis Mawrth a mis Awst bob blwyddyn.

Dyfernir a chyhoeddir y canlyniadau ar gyfer Tystysgrif Her Sgiliau CBAC a Bagloriaeth Cenedlaethol /Sylfaen Cymru ym mis Awst bob blwyddyn.

Lle cafodd y cod cyfnewid ei ddefnyddio, cyhoeddir Tystysgrif Cymhwyster ar gyfer y dystysgrif Her Sgiliau yn cadarnhau'r canlynol:

- teitl, lefel a gradd y Dystysgrif Her Sgiliau;
- y graddau ar gyfer y Project Unigol a'r Heriau a ddewisir.

Cyhoeddir Tystysgrif Cymhwyster ar wahân ar gyfer cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

10 MYNEDIAD AC YSTYRIAETH ARBENNIG

Cynlluniwyd y fanyleb hon i gynnig mynediad teg i bob ymgeisydd a lleihau'r angen i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr sydd â gofynion penodol. Fel arfer, disgwylir i ganolfannau wneud trefniadau priodol ar gyfer galluedd, diddordebau ac anghenion dysgwyr unigol wrth iddyn nhw ddewis y materion allweddol a'r cymwysterau sydd ar gael.

Os bydd unrhyw ymholiadau ynghylch y defnydd o'r hyblygrwydd hwn sy'n gynwysedig yn y fanyleb i fodloni anghenion dysgwyr, neu ynghylch y defnydd o addasiadau rhesymol, dylai canolfannau gysylltu â CBAC.

Yn eithriadol, os bydd canolfan am i ddysgwr gael ystyriaeth arbennig; bydd y gweithdrefnau yn dilyn y rheini a amlinellir yng nghyhoeddiad y CGC, sef *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol*.

11 GWASANAETH AR ÔL Y CANLYNIADAU

Os bydd canolfan yn awyddus i herio canlyniad y broses safoni, rhaid i bennaeth y ganolfan wneud hynny'n ffurfiol drwy hysbysu CBAC o fewn 21 diwrnod i ddyddiad cyhoeddi'r canlyniadau.

Caiff y sampl o waith a gyflwynir i'w safoni ei hadolygu gan safonwr nad oedd yn rhan o'r broses wreiddiol, a chaiff y ganolfan ei hysbysu o'r canlyniad.

Os na fydd y ganolfan yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad, gellir cyflwyno apêl i CBAC.

Atodiad A – Rhestr Termau

Termau a ddefnyddir yn y fanyleb gan gynnwys deilliannau dysgu a bandiau perfformiad.

Berfau Gorchmynnol	
Amlinellwch	Cynllun neu gyfrif cyffredinol, rhagarweiniol neu fras o rywbeth sy'n canolbwyntio ar y prif nodweddion ac yn anwybyddu manylion
Arddangoswch	Trefnu a chyflwyno gwybodaeth ar ffurf diagramau
Aseswch	Llunio barn ar ansawdd neu werth rhywbeth
Cofnodwch	Cael gafael ar ddata a gwybodaeth a'u storio
Coladwch	Casglu a chyfuno testunau, gwybodaeth neu ddata
Crynowch	Rhoi fersiwn wedi'i byrhau o rywbeth a ddywedwyd neu a ysgrifennwyd, gan ddatgan ei brif bwyntiau
Cydweithiwch	Gwneud cyfraniad at waith tîm, helpu aelodau'r tîm fel y bo angen
Cyfathrebwch	Rhannu neu gyfnewid gwybodaeth neu syniadau
Cyfeirnodwch	Dyfynnu neu gydnabod pob ffynhonnell gwybodaeth
Cyfiawnhewch	Dangos neu brofi bod rhywbeth yn iawn neu'n rhesymol
Cyflwynwch	Trefnu a chyfathrebu mewn ffordd y gellir ei dilyn a'i deall yn glir.
Cyfosodwch	Cyfuno gwybodaeth, gwrthrychau neu syniadau
Cymharwch	Disgrifio ac egluro'r hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol
Cymhwyswch	Defnyddio (sgiliau) yn briodol ac yn effeithiol
Cynllunio	Cynnig manwl ar gyfer gwneud neu gyflawni rhywbeth
Dadansoddwch	Ystyried yn fanwl, rhannu'n gydrannau, ystyried y cydberthnasau
Dangoswch	Rhoi enghraifft neu ddisgrifio gan gyfeirio at enghreifftiau
Datblygwch	Dod yn fwy aeddfed, datblygedig, neu ymhelaethu
Defnyddiwch	Defnyddio, cymryd neu ddal rhywbeth at ddiben
Detholwch	Dewis rhywbeth yn ofalus fel yr opsiwn gorau neu fwyaf addas
Diffiniwch	Datgan neu ddisgrifio ystyr, union natur a/neu gwmpas term
Disgrifiwch	Rhoi cyfrif neu gynrychiolaeth mewn geiriau, darparu lefel a swm priodol o wybodaeth fanwl
Eglurwch	Rhoi rhesymau, sicrhau bod (syniad neu sefyllfa) yn glir drwy ei ddisgrifio/disgrifio yn fanylach
Gweithredwch	Rhoi (penderfyniad, cynllun, cytundeb ac ati) ar waith
Gwerthuswch	Defnyddio meini prawf i lunio barn, i gael syniad o faint, nifer neu werth rhywbeth
Monitrwch	Arsylwi, gwirio neu gadw cofnod parhaus o rywbeth
Myfyriwch	Meddwl yn ofalus am rywbeth neu ystyried ei oblygiadau
Nodwch	Adnabod, gwahaniaethu a phennu beth yw rhywbeth
Proseswch	Defnyddio cyfres o gamau gweithredu i sicrhau canlyniadau
Ystyriwch	Meddwl yn ofalus, rhoi ystyriaeth (i rywbeth) wrth lunio barn

Gwahaniaethwyr

Addas	A yw'r ymateb yn briodol, yn gydnaws neu'n gweddu'n dda?
Annibynnol	A oedd y dysgwr yn gallu gweithredu neu roi ymateb heb gymorth neu arweiniad gan eraill?
Clir	A yw'r ymateb yn gydlunus ac yn ddealladwy? A yw'n amlwg ac yn ddiamwys?
Credadwy	A ellir credu'r ymateb; a yw'n darbwyllo?
Cyfyngedig	A gyfyngwyd yr ymateb o ran maint, swm neu raddau? A oes rhai elfennau ar goll?
Cynhwysfawr	A yw'r ymateb yn llawn ac yn eang ei gwmpas?
Cywir	I ba raddau y mae'r ymateb yn gywir neu'n fanwl gywir?
Dibynadwy	A ellir ymddiried yn yr ymateb neu'r ffynhonnell ac a yw'n gywir?
Dichonadwy	A yw'r ymateb yn ymwneud â rhywbeth posibl ac ymarferol; y gellir ei gwblhau'n hawdd neu'n gyfleus?
Digonol	A yw'r ymateb yn foddhaol neu'n dderbyniol o ran ansawdd neu swm?
Dilys	A yw'r ymateb wedi'i seilio'n gadarn ar resymeg neu ffaith? A yw'r ffynhonnell yn llwyddo i ddarparu'r hyn y mae'n anelu at ei ddarparu?
Effeithiol	A lwyddodd yr ymateb i gynhyrchu canlyniad dymunol neu fwriadedig?
Effeithlon	A weithiodd y dysgwr mewn ffordd drefnus a medrus? A yw'r ymateb yn sicrhau'r cynhyrchiant gorau posibl ac yn gwastraffu cyn lleied o ymdrech â phosibl?
Manwl	A yw'r ymateb yn cynnwys llawer o fanylion neu ffeithiau; yn rhoi sylw i fanylder?
Manyllder	A yw'r ymateb yn helaeth, yn fanwl ac yn ddigon cymhleth?
Perthnasol	A oes cyswllt agos rhwng yr ymateb a'r mater dan sylw neu a yw'r ymateb yn briodol ar gyfer y mater dan sylw?
Priodol	A yw'r ymateb yn addas neu'n briodol, gan ystyried y sefyllfa/leoliad?
Realistig	A yw'r ymateb yn synhwyrol ac yn ymarferol o ran yr hyn y gellir ei gyflawni neu ei ddisgwyl?
Rhesymegol	A yw'r ymateb yn seiliedig ar resymeg neu synnwyr da?
Strwythuredig	A yw'r ymateb wedi'i drefnu mewn ffordd resymegol a synhwyrol?
Sylfaenol	A yw'r ymateb yn cynnwys isafswm clir; pwyntiau hanfodol neu bwyntiau sylfaenol?
Syml	A yw'r ymateb yn syml ac yn hawdd i'w ddeall?
Wedi'i addasu	A addaswyd yr ymateb mewn ffordd addas at ddefnydd neu ddiben newydd? A ddefnyddiwyd y sgil yn llwyddiannus mewn gwahanol gyd-destunau?
Wedi'i gadarnhau	A yw'r dysgwr wedi defnyddio tystiolaeth i ategu unrhyw gasgliadau a wnaed?
Wedi'i gyfiawnhau	A gaiff yr ymateb ei egluro a'i ategu'n llawn? A gewch eich darbwyllo o ddadl a/neu resymeg?
Wedi'i resymu	A yw'r ymateb wedi'i nodweddu gan synnwyr cyffredin, a yw'n glir ac yn rhesymegol?
Ystod	A yw'r ymateb yn darparu detholiad o ddeunydd sy'n gysylltiedig â'r pwnc?